Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwerthusiad Cenedlaethol o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

Dadansoddiad thematig o astudiaethau achos blwyddyn un y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

llyw.cymru

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | 1 |
| 2. Methodoleg | 3 |
| 3. Canfyddiadau | 5 |
| 4. Trafodaeth | 23 |
| 5. Casgliad | 25 |
| Atodiad A | 27 |
| Atodiad B | 28 |
| Atodiad C | 29 |
| Atodiad D | 37 |



OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG53597, ISBN digidol 978-1-80633-899-3
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir a chyd-destun polisi

Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn rhaglen ariannu bum mlynedd a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Wedi'i gosod yn erbyn cefndir y fenter Cymru iachach, mae'r gronfa'n darparu £146.8 miliwn y flwyddyn, o 2022 tan 2027, i gefnogi prosiectau a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar lefel ranbarthol, gyda phwyslais ar waith partneriaeth a chydgynhyrchu. Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn parhau â gwaith a gwerthoedd y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid flaenorol, gan geisio datblygu newidiadau systemig a chynaliadwy yn system iechyd a gofal cymdeithasol Cymru drwy gyfrannu at y gwaith o ddatblygu chwe Model Gofal Cenedlaethol newydd: atal a chydgysylltu cymunedol, gofal cymhleth yn nes at adref, iechyd a llesiant emosiynol, cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd, gwasanaethau gartref o'r ysbyty, a datrysiadau seiliedig ar lety.

Dosberthir y gronfa yn unol ag ôl troed y byrddau iechyd i'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru. Mae'r byrddau hyn yn cwmpasu rhanbarthau Caerdydd a'r Fro, Gwent, Cwm Taf Morgannwg, Gorllewin Morgannwg, Gorllewin Cymru, Powys, a Gogledd Cymru. Mae gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol drosolwg a rheolaeth dros eu priod ddyraniadau cyllid, ac mae proses monitro ac adrodd gadarn ar waith rhwng y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru.

Fel rhan o'r gwaith monitro a goruchwylio parhaus hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu'r Gwerthusiad Cenedlaethol o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Goruchwylir y gwaith hwn gan Lywodraeth Cymru, ond mae wedi'i gontractio i raddau helaeth i Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru ym Mhrifysgol De Cymru a'u partneriaid; bydd yr astudiaeth hon a luniwyd yn fewnol yn canolbwyntio ar yr astudiaethau achos a gyflwynwyd ar gyfer blwyddyn gyntaf y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, a oedd ar waith drwy gydol blwyddyn ariannol 2022-2023, ac mae'r ail flwyddyn yn cael ei dadansoddi ar yr un pryd gan Old Bell 3 Research, sef sefydliad sy'n ymgysylltiedig ag Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru. Ar adeg ysgrifennu, mae'r astudiaethau achos ar gyfer y drydedd flwyddyn wedi dod i law, a disgwylir iddynt gael eu dadansoddi.

## 1.2 Diben yr astudiaeth hon

Mae'r trefniadau monitro ac adrodd cyfredol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gasglu astudiaethau achos gan brosiectau a ariennir gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, er mwyn cofnodi tystiolaeth ansoddol ddibynadwy ynghylch profiad uniongyrchol pobl o ymgysylltu â'r Gronfa. Mae'r astudiaethau achos hyn yn amrywiol o ran eu cwmpas, o adroddiadau uniongyrchol dan ddefnyddwyr a buddiolwyr prosiectau a ariennir gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i drosolygon ehangach a gasglwyd o safbwynt staff rheng flaen, rheolwyr, neu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eu hunain. Mae'r amrywiaeth yn caniatáu ar gyfer casglu data cynhwysfawr, eang a chraff, a all gyfrannu at wella'r prosiectau hyn a chynaliadwyedd y cronfeydd sy'n eu galluogi.

Er mwyn deall gweithrediad y prosiectau a'r gwasanaethau uchod yn well, a chael dirnadaeth o brofiadau bywyd yr unigolion sy'n ymgysylltu â nhw, mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu i'r astudiaethau achos hyn gael eu dadansoddi, i nodi'r themâu yn y data ac ystyried eu goblygiadau posibl o ran darparu'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol nawr ac yn y dyfodol yn ogystal ag o ran unrhyw raglen a allai ei holynu. At hynny, mae'r dadansoddiad hwn hefyd yn rhoi cyfle i arfarnu fformat yr astudiaethau achos yng nghyd-destun adrodd ar y rhaglen a thrafod ei hyfywedd o ran y diben hwn.

## 1.3 Cwestiynau ymchwil

Bydd yr astudiaeth hon yn archwilio hyn drwy fynd i'r afael â'r cwestiynau ymchwil canlynol:

**CY1:** Pa themâu y gellir eu nodi yn astudiaethau achos blwyddyn un y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol?

**CY2:** Beth y mae'r astudiaeth hon yn ei awgrymu o ran hyfywedd y fformat astudiaethau achos ar gyfer gwerthuso rhaglenni ariannu fel y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol?

## 1.4 Trafod cyfyngiadau

Er bod yr adroddiad hwn yn ceisio bod mor gynhwysfawr â phosibl, dylid nodi ei gyfyngiadau.

Er y deallir y gwnaed ymdrechion i sicrhau bod yr astudiaethau achos yn cael eu casglu, eu llunio, a'u cyflwyno mewn modd diduedd a gwrthrychol, nid yw hyn yn diystyru'n llwyr y posibilrwydd y gallai unrhyw ddisgrifiad o wasanaethau a phrosiectau a ysgrifennwyd gan unigolion sy'n ymgysylltiedig â nhw gynnwys elfen o wrthrychedd neu duedd ffafriol anfwriadol.

Yn ogystal, gall cynrychiolaeth a chynhwysiant osod cyfyngiadau, oherwydd gall fod yn fwy anodd casglu adroddiadau gan rai grwpiau o'r boblogaeth na chan eraill. Gallai unrhyw gynhwysiant anghymesur canlyniadol yn achos lleisiau penodol, er enghraifft y staff a'r gweithlu, effeithio hefyd felly ar gydbwysedd yr astudiaethau achos.

Gall y cyfyngiadau hyn ar gynnwys yr astudiaethau achos effeithio hefyd, yn eu tro, ar gasgliadau'r adroddiad hwn, felly nid yw'n honni ei fod yn cynrychioli cofnod cynhwysfawr sy'n cynnwys popeth o ran y sefyllfa genedlaethol gyfan. Yn hytrach, mae'n ceisio rhoi cipolygon bach ond manwl ar y gwasanaethau a ariennir gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ledled y wlad, a darluniau personol o brofiadau bywyd y bobl sy'n eu darparu ac sy'n ymgysylltu â nhw.

# 2. Methodoleg

## 2.1 Trosolwg

Mae'r astudiaeth hon yn mabwysiadu'r ffordd o ymdrin â dadansoddi thematig a ddisgrifir gan Braun a Clarke (2006), sef dehongli sampl data o 31 o astudiaethau achos, a ddewiswyd yn seiliedig ar addasrwydd o gronfa ehangach o gyflwyniadau, a hynny drwy gymhwyso offeryn arfarnu pwrpasol. Yna cafodd yr astudiaethau achos a ddewiswyd eu darllen, eu hanodi a'u codio'n unol â'r deunyddiau o'r ffynonellau gwreiddiol, a chafodd y codau a nodwyd eu mireinio a'u trefnu'n is-themâu a themâu, a drefnwyd wedyn yn grwpiau semantig. Cafodd y categori olaf, sef grwpiau semantig, ei gynnwys er mwyn hwyluso dealltwriaeth a'r gwaith cyflwyno, ac nid yw'n cyflawni dim swyddogaeth dadansoddi y tu hwnt i hyn. Trefnwyd y themâu'n grwpiau semantig yn seiliedig ar eu hystyr a'u perthnasedd i themâu eraill. Yna cafodd y rhain eu dehongli er mwyn sefydlu naratif cydlynol, y cymhwyswyd y cwestiynau ymchwil iddo.

## 2.2 Y dull dadansoddol

Dewiswyd Dadansoddiad Thematig fel yr amlinellir gan Braun a Clarke (2006) fel y prif ddull dadansoddol yn yr astudiaeth hon oherwydd ei hyblygrwydd, ei addasrwydd o ran y fformat astudiaethau achos, ei allu i gynhyrchu data ansoddol cyfoethog, ac am ei fod yn syml ac yn hawdd ei ddefnyddio.

Yn ogystal, cyfeiriwyd yn achlysurol at y papur "*A worked example of Braun and Clarke's approach to reflexive thematic analysis*" gan D. Byrne (2021). Mae'r papur hwn yn cynnwys disgrifiadau manwl o'r modd o gymhwyso'r camau a'r prosesau a ddisgrifir gan Braun a Clarke, a'r rhesymeg drostynt, a chyfeiriwyd ato er mwyn sicrhau bod y dull yn cael ei ddehongli'n effeithiol ac y glynwyd wrtho.

## 2.3 Y Broses samplu

Mae'r astudiaeth hon yn edrych ar yr astudiaethau achos a ddarparwyd ar gyfer blwyddyn gyntaf y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, a redodd o fis Ebrill 2022 i fis Ebrill 2023. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, cyflwynwyd 83 o astudiaethau achos i Lywodraeth Cymru gan y saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Er mwyn dethol sampl o faint ymarferol a sicrhau data o safon dderbyniol i'w dadansoddi, datblygwyd adnodd sgrinio pwrpasol, Adnodd Arfarnu Beirniadol y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (gweler atodiad A). Roedd hwn ar ffurf rhestr wirio'n bennaf, ynghyd â chwestiynau wedi'u sgorio ar raddfa pum pwynt. Roedd y rhestr wirio'n cynnwys meini prawf ar gyfer astudiaeth achos gyflawn ac ymarferol, er enghraifft defnydd o'r templed a ddarperir, persbectif clir, disgrifiadau clir, a'r angen i gynnwys elfennau pwysig megis y gwersi a ddysgwyd. Roedd y raddfa ar gyfer sgorio pob maen prawf yn amrywio o 0, os na fodlonwyd y meini prawf; 1 i 2, os nad oedd yn glir a oeddent wedi cael eu bodloni; a 3 i 4, os oeddent wedi cael eu bodloni. Roedd hyn yn ei gwneud yn bosibl gweld hyfywedd dadansoddol pob astudiaeth achos, a, thrwy hynny, a oedd yn addas ei chynnwys.

Gosodwyd sgôr feincnodi o 16 allan o 32 o bwyntiau posibl i gynrychioli'r isafswm sgôr er mwyn i astudiaeth achos gael ei chynnwys yn y dadansoddiad, a gosodwyd 11 fel yr isafswm sgôr i wneud astudiaeth achos yn gymwys i gael ei hystyried. Ar ôl arfarnu pob un o'r astudiaethau a gyflwynwyd, barnwyd bod 31 ohonynt o safon dderbyniol i gael ei dadansoddi.

## 2.4 Y broses godio

Argraffwyd yr astudiaethau achos ar ffurf copïau caled a'u darllen drwodd dair gwaith. Yn ystod y darlleniad cyntaf, cafodd y deunyddiau eu hanodi â llaw. Ar yr ail a'r trydydd darlleniad, cafodd yr astudiaethau achos eu codio, eto â llaw. Mae Dadansoddi Thematig yn rhoi pwyslais ar rôl weithredol yr ymchwilydd, felly nodwyd a dynodwyd y codau yn ôl disgresiwn yr ymchwilydd. Gwnaeth dwy rownd o godio dychweliadol gan yr un ymchwilydd ganiatáu ar gyfer archwiliad trylwyr a chyson o'r astudiaethau achos, a lluniwyd rhestr gynhwysfawr o 213 o godau arwahanol yn ddigidol ochr yn ochr â chyfrifiad o ba mor aml yr oedd pob cod yn ymddangos yn y sampl gyfan. Trefnwyd y rhestr hon yn nhrefn yr wyddor i ddechrau, ond lluniwyd rhestr arall wedi hynny a drefnwyd yn nhrefn nifer yr ymddangosiadau.

Yn ystod y broses godio, cafodd nifer o'r codau eu haddasu, eu huno, neu eu newid fel arall i leihau achosion o ddyblygu ac i gynnal eu cymhwysedd er mwyn cyflawni dibenion yr astudiaeth orau. Mae cofnod o'r newidiadau hyn wedi'i gynnwys yn Atodiad D.

## 2.5 Datblygu is-themâu a themâu

Ar ôl llunio'r codau digidol, cafodd y codau eu categoreiddio'n is-themâu. Gwnaed hyn drwy grwpio codau gyda'i gilydd yn ôl math a ffocws. Ystyriwyd bod rhai codau'n berthnasol i fwy nag un is-thema, ond yn yr achosion hyn, cafodd eu cymhwysedd posibl i bob is-thema ei bwysoli yn erbyn presenoldeb codau eraill, a gwnaed ymdrech drwyddi draw i sicrhau bod cydbwysedd priodol yn cael ei gynnal, gan leihau achosion o ddyblygu lle y bo'n bosibl.

Gan ychwanegu cam arall at y broses dadansoddi thematig, penderfynodd yr ymchwilydd gategoreiddio'r themâu hyn ymhellach mewn grwpiau semantig. Er nad yw hyn yn arferol wrth ddadansoddi'n thematig, gwnaed hyn i ddangos y berthynas rhwng y themâu a'u trefnu yn ôl eu hystyr, fel y gellid gwahaniaethu rhyngddynt a'u cyflwyno'n gliriach.

# 3. Canfyddiadau

## 3.1 Trosolwg

Arweiniodd y broses o godio a chategoreiddio at nodi 27 o is-themâu ar wahân. O blith y 213 o godau a nodwyd, dim ond dau ohonynt nad oedd modd eu categoreiddio; roedd hyn oherwydd eu diffyg cymhwysedd i'r is-themâu a nodwyd neu eu diffyg perthnasedd canfyddedig i'r astudiaeth gyffredinol. Crëwyd is-thema olaf o'r enw "Amrywiol", i ddarparu ar gyfer y nifer bach dros ben.

Yna cafodd y 26 o is-themâu eraill eu didoli, eu grwpio, a'u categoreiddio'n 11 prif thema, a drefnwyd yn bum grŵp semantig fel a ganlyn:

- **Problemau Presennol**, yn cynnwys y themâu "Diffyg capasiti", "Diffyg hygyrchedd" a "Defnyddwyr gwasanaethau'n cael anawsterau";
- **Posibl**, yn cynnwys y thema "Potensial na fanteisiwyd arno";
- **Ffactorau pwysig**, yn cynnwys y thema "Pwysigrwydd cymorth gan gyfoedion";
- **Gwasanaethau'n Gweithio'n Dda**, yn cynnwys y themâu "Gwasanaethau'n gweithio'n effeithiol", "Darpariaeth o ansawdd uchel" a "Datblygiadau i wasanaethau";
- **Canlyniadau Da**, yn cynnwys y themâu "Defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu grymuso", "Gwelliant i fywydau personol defnyddwyr" a "Gwasanaethau'n cael eu gwerthfawrogi".

Eto, crëwyd grŵp thema a semantig ar gyfer yr is-thema "Amrywiol" a'i chynnwys cyfansoddol yn unig. Disgrifir y pum grŵp semantig, a'r themâu a'r is-themâu a gynhwysir ym mhob un ohonynt, yn adran 3.2., ac mae rhestr lawn ar gael yn Atodiad B. Mae rhestr o'r is-themâu a'r codau ar gael yn Atodiad C.

### 3.1.1 Nodyn ar derminoleg

Mae'r term "defnyddwyr gwasanaethau" fel y'i defnyddir yn y ddogfen hon yn cyfeirio at unrhyw unigolyn sy'n cyrchu neu'n ymgysylltu â'r ddarpariaeth a gynigir gan wasanaeth a ariennir gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

Cafodd yr holl enwau a ddefnyddir yn y detholiadau o'r astudiaethau achos eu ffugio adeg eu cyflwyno er mwyn cynnal cyfrinachedd.

## 3.2 Grŵp A – Problemau Presennol

Diagramau thematig – Grŵp A


Ffig a1




Ffig a2




Ffig a3



## 3.2.1 Thema A1: Diffyg capasiti (ffig. a1)

**Diffyg capasiti yn y gwasanaeth**

> *"Mae'r trefniadau ariannu dros dro ar gyfer staff cymorth yn ei gwneud yn anodd recriwtio a chadw staff."*
>
> **CV007, P31, L26**

Roedd yr astudiaethau achos yn disgrifio gwasanaethau heb y capasiti gofynnol i ddarparu'n unol â'u llawn botensial. Roedd hyn yn amlwg mewn sawl ffordd, ond enghraifft arwyddocaol oedd diffyg cyllid. Roedd hyn cael effaith nodedig, gan effeithio ar nifer o feysydd eraill yn eu tro. Er enghraifft, mae diffyg cyllid yn golygu nad yw rhai gwasanaethau'n gallu fforddio cyflogi/hyfforddi/cadw digon o staff neu gynnal seilwaith i safon ddelfrydol. Mae'r diffyg cyllid hwn hefyd yn golygu bod rhai gwasanaethau wedi dechrau dod i ddibynnu ar gyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, a'i ddefnyddio i gefnogi darpariaeth graidd a phrif ffrwd, ac nid dyna oedd ei fwriad.

Yn ogystal â phrinder staff cyffredinol, mae problemau capasiti yn golygu nad oes staff arbenigol ar gael i'r un graddau, gan olygu nad yw defnyddwyr gwasanaethau'n gallu cael gofal priodol a bod staff craidd yn wynebu llwyth gwaith hyd yn oed yn drymach. Fodd bynnag, roedd un astudiaeth achos hefyd yn disgrifio adnoddau'n cael eu gwastraffu drwy gynnig gwasanaethau mewn achosion a meysydd lle nad oedd eu hangen ac nad oedd hynny'n briodol o reidrwydd, gan ymestyn ymhellach adnoddau a oedd eisoes yn gyfyngedig.

> *"Ar ambell achlysur, roedd y gofalwyr ifanc yn ymdopi'n well â'u colled nag yr oedd eu rhieni'n meddwl ac felly nid oedd y rhaglen yn addas."*
>
> **NW003, P2, L19**

Mae'r galw am wasanaethau eisoes yn gyson ac yn parhau i godi. Gall y pwysau allanol hwn gael ei waethygu gan broblemau systemig o ran rheoli a gweinyddu gwasanaethau a'r sefydliadau sy'n eu darparu, gan gyfyngu ar effeithlonrwydd darparwyr gwasanaethau a'r graddau y gall gwasanaethau weithio'n effeithiol.

**Diffyg cydgynhyrchu effeithiol**

> *"Nid yw India'n gwybod a yw'r ysgol yn gwybod am eu rôl o fod yn ofalwyr ifanc."*
>
> **CV005, P23, L34**

Mewn rhai achosion, dangoswyd nad yw darparwyr gwasanaethau gwahanol, y mae eu darpariaeth yn ceisio mynd i'r afael â materion tebyg ac yn cyflwyno cyfle am gydgynhyrchu gwerthfawr, yn gweithio gyda'i gilydd mor effeithiol ag y gallent fel arall. Mae hyn yn nodedig oherwydd bwriad datganedig y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i alluogi a chefnogi cyfleoedd ar gyfer cydgynhyrchu.

Gellid priodoli'r diffyg cydgynhyrchu hwn i ddau ffactor gwahanol. Yn gyntaf, nodwyd bod problemau'n codi yn sgil gwahaniaethau daearyddol, er enghraifft wrth i wasanaethau gwahanol geisio cydgynhyrchu gan weithio o leoliadau gwahanol. Yn ail, mae diffyg safoni darpariaeth a mesurau monitro yn arwain at amrywiaeth o ran ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i ddefnyddwyr o un gwasanaeth i'r llall. Gyda'i gilydd, mae diffyg cyfathrebu, cysondeb a chydweithio effeithiol rhwng partneriaid cydgynhyrchu posibl yn arwain at gysondeb gwael, sydd yn ei dro yn golygu canlyniadau gwaeth i ddefnyddwyr dros yr hirdymor.

### 3.2.2 Thema A2: Diffyg hygyrchedd (ffig. a2)

**Rhwystrau i fynediad**

> *"... ar hyn o bryd ac yn y gorffennol mae gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau eraill wedi 'rhoi'r gorau iddi' ac wedi tynnu gwasanaethau'n ôl oherwydd diffyg ymgysylltiad."*
>
> **POW005, P2, L8**

Mae defnyddwyr gwasanaethau a darpar ddefnyddwyr gwasanaethau ar hyd a lled Cymru yn wynebu llawer o rwystrau sy'n atal eu mynediad at ddarparwyr a gwasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys ffactorau ar lefelau personol, amgylcheddol, amgylchiadol, ac yn ymwneud â darpariaeth.

Mae ffactorau personol i ddefnyddwyr gwasanaethau'n cynnwys ewyllys unigolion i chwilio am ddarpariaeth, cyndynrwydd neu amharodrwydd i ddatgelu gwybodaeth a allai arwain at atgyfeiriad neu gywilydd, eu canfyddiadau o ran pa mor hawdd yw hi i gael gafael ar y ddarpariaeth, teimladau o amheuaeth ynghylch a ydynt yn haeddiannol neu'n gymwys, cyndynrwydd i ymgysylltu â thriniaeth feddygol, cyflwr iechyd cyffredinol y defnyddwyr gwasanaethau, a symudedd yr unigolion.

Y prif ffactor amgylcheddol yw'r angen am drafnidiaeth gyhoeddus. Mae anawsterau'n codi o ran sicrhau mynediad defnyddwyr gwasanaethau ato, a'i weithrediad effeithiol. Mae hyn yn cyfyngu ar allu rhai pobl i gyrraedd a mynychu gwasanaethau, ac yn effeithio ar eu hannibyniaeth a'u hymreolaeth.

Y prif ffactor amgylchiadol y soniwyd amdano oedd pandemig COVID-19 a'i fesurau lliniaru cysylltiedig, a oedd, fel y dangoswyd yn y sampl, wedi lleihau cysylltiad wyneb yn wyneb â gwasanaethau, ymgysylltiad â gwasanaethau a ddarperir, a digwyddiadau cymdeithasol wyneb yn wyneb.

> *"Roedd Daniel yn mynd i glwb ieuenctid ar-lein yn ystod COVID, ond roedd ei fam yn awyddus i Daniel gael cyswllt wyneb yn wyneb â phlant eraill."*
>
> **CV006, P25, L14**

Ar lefel adnoddau, soniwyd am anhawster wrth gyfathrebu ac ymgysylltu ag awdurdodau lleol. Mae gan hyn y potensial i arafu a chyfyngu ar brosesau atgyfeirio neu brosesau dosbarthu cyngor a gwybodaeth. Mae'r ffactorau y soniwyd amdanynt yn flaenorol, gan gynnwys trafnidiaeth, ymgysylltiad a chyndynrwydd defnyddwyr hefyd yn effeithio ar ddarparwyr gwasanaethau, a allai awgrymu methiant ar ran darparwyr i fynd ati mewn modd effeithiol i annog a galluogi hygyrchedd i ddefnyddwyr gwasanaethau a darpar ddefnyddwyr gwasanaethau.

**Cyfyngiadau daearyddol**

> *"yn ystod ei flwyddyn olaf yn yr ysgol, roedd aelodau ei deulu wedi'u tynnu rhwng dymuniad i weld Matthew yn dilyn addysg bellach a'i ddymuniad ef a'u dymuniad nhw i'w weld yn aros yn lleol."*
>
> **CV008. P31, L10**

Dangoswyd bod ffactorau daearyddol hefyd yn cyflwyno cyfyngiadau sylweddol ar fynediad i wasanaethau, a'r mwyaf sylweddol ohonynt oedd anghysondeb o ran y gwasanaethau sydd ar gael a chyfleoedd rhwng rhanbarthau a chyfyngiadau gwledigrwydd.

Roedd amrywiadau rhanbarthol yn cynnwys pa wasanaethau a oedd ar gael i ddefnyddwyr a faint o gymorth a darpariaeth yr oeddent yn gallu eu cynnig. Roedd hyn, yn ei dro, yn gosod cyfyngiadau ar ddefnyddwyr unigol a'r cyfleoedd a oedd ar gael iddynt, yn enwedig o ran cyfyngiadau ar symudedd ac effaith hynny ar fynediad at gyfleoedd addysg uwch. Disgrifiwyd sefyllfaoedd lle roedd yn rhaid i rai defnyddwyr gwasanaethau gyfaddawdu ynghylch eu dymuniadau a'u nodau er mwyn

cynnal eu sefydlogrwydd a'u llesiant eu hunain, gan effeithio ar eu potensial personol ac ansawdd eu bywyd.

Dywedwyd bod cymunedau gwledig yn wynebu heriau tebyg. Nodwyd bod yna broblemau cymdeithasol mewn rhai cymunedau, ond dywedwyd nad oedd ganddynt y cyfleusterau na'r seilwaith gofynnol i fynd i'r afael â nhw ac i liniaru eu heffeithiau ehangach.

> *"... Trefnu a darparu gweithgareddau cymunedol lleol hygyrch, yn enwedig mewn cymunedau gwledig lle y gall plant a'u teuluoedd deimlo'n ynysig a dioddef iechyd meddwl gwael."*
>
> **NW011, P1, L46**

### 3.2.3 Thema A3: Defnyddwyr gwasanaethau'n cael anawsterau (ffig. a3)

**Defnyddwyr gwasanaethau'n cael anawsterau**

> *"Roedd yn cael anhawster datrys sawl mater oherwydd ei chyflyrau ac mae'n wynebu trafferthion ariannol oherwydd bod ei budd-daliadau wedi dod i ben."*
>
> **CV025, P68, L5**

Dywedwyd bod defnyddwyr gwasanaethau ledled Cymru yn wynebu llu o anawsterau ym mhob agwedd ar fywyd, gan gynnwys yn ariannol, yn bersonol, ac yn gymdeithasol, a bod y cydadwaith hwn ynddo'i hun hefyd yn nodedig fel ffactor sy'n cymhlethu'r sefyllfa.

Mae llawer o unigolion yn ymdrin â phroblemau iechyd a chymdeithasol cymhleth a chyfunol, sydd nid yn unig yn creu llawer iawn o angen ond gallant greu anhawster o ran darpariaeth effeithiol. Yn aml, bydd unigolion yn cyflwyno ymddygiadau heriol megis ymarweddiad ymosodol neu dueddiadau gwrthgymdeithasol, a allant, yn eu tro, fod yn niweidiol i gydlyniant rhwydweithiau cymorth megis unedau teuluol, a chyfrannu at broblemau ehangach megis bod yn ynysig yn gymdeithasol.

Nodwyd bod diffyg ymreolaeth a theimladau o golli pŵer yn faterion allweddol, a bod llawer o unigolion yn ceisio lliniaru effeithiau colli eu hannibyniaeth a'u galluogedd eu hunain, yn ogystal â'u gallu i gyfathrebu a chynnal eu hanghenion sylfaenol eu hunain.

Roedd yr anawsterau hyn yn cael eu gwaethygu mewn rhai achosion gan ffactorau ehangach, megis yr angen i gyflawni dyletswyddau'n ymwneud â gofalu am eraill yn eu tro.

Elfen gyffredin rhwng yr holl faterion hyn oedd caledi ariannol, a oedd yn arwain at deimladau pellach o golli pŵer ymhlith defnyddwyr gwasanaethau, mwy o bwysau ar deuluoedd, a rhwystrau ychwanegol o ran cael gafael ar ddarpariaeth.

**Defnyddwyr gwasanaethau ifanc yn cael anawsterau**

> *"Cafodd Sam ei atgyfeirio i gael therapi am ei fod yn colli arno'i hun yn rheolaidd gartref. Roedd yn ymosod ar ei fam yn gorfforol."*
>
> **WG002, P2, L11**

Er y cyflwynwyd tystiolaeth bod gan ddefnyddwyr gwasanaethau fel grŵp ehangach lawer o broblemau cymhleth i ymdrin â nhw, mae'r rhai ifancach yn wynebu peth heriau unigryw. Dywedwyd bod y grŵp hwn yn arbennig o dueddol o arddangos problemau ymddygiadol. Roedd y mater hwn yn cyfrannu at broblemau gyda'u teuluoedd a'u bywydau gartref, ac yn ymddangos ochr yn ochr â phroblemau personol eraill megis gorddibyniaeth ar rieni a bod yn agored i'r perygl y byddai rhywun yn camfanteisio arnynt.

Dywedwyd bod sefydliadau prif ffrwd megis ysgolion a cholegau weithiau'n methu â chydnabod a chynorthwyo pobl ifanc yn ddigonol i ddelio â'u hanawsterau personol neu ymddygiadol.

### Gofalwyr di-dâl yn cael anawsterau

> *"Roedd yn teimlo'n euog am ofyn am rywbeth iddo'i hun ond roedd wedi blino'n lân ..."*
>
> **CV007, P27, L11**

Roedd gofalwyr di-dâl yn grŵp a oedd yn ymddangos yn aml iawn yn y sampl. Mewn rhai achosion, roedd y defnyddwyr gwasanaethau hefyd yn ofalwyr di-dâl, a dywedwyd bod yr unigolion hyn yn wynebu lefel uchel iawn o straen, oherwydd pwysau cyfunol eu hanghenion eu hunain a chyfrifoldebau eu dyletswyddau gofalu.

Roedd y dyletswyddau gofalu a ddisgrifiwyd yn gymhleth yn aml ac yn arwain at ofalwyr di-dâl yn blaenoriaethu anghenion y rhai yr oeddent yn gofalu amdanynt uwchlaw eu hanghenion eu hunain. Mewn achosion penodol nodwyd bod dyletswyddau gofalwyr di-dâl yn mynd â'u hamser i gyd ac yn gwneud niwed i'w llesiant personol. Enghraifft benodol y soniwyd amdani oedd cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mewn rhai achosion nodwyd yn benodol bod gofalwyr di-dâl wedi blino'n lân ac wedi'u llethu.

### Gofalwyr ifanc yn cael anawsterau

> *"Bella yw'r unig berson ifanc yn y tŷ heb anabledd, mae hyn yn golygu, ar adegau, mai hi yw'r unig berson sy'n gallu helpu gyda thasgu dyddiol."*
>
> **CV009, P32, L8**

O blith y grŵp hwn, dywedwyd unwaith eto bod y bobl ifanc dan sylw yn wynebu amgylchiadau arbennig o heriol.

Nodwyd bod gofalwyr ifanc yn wynebu pwysau sylweddol oherwydd y gallai eu dyletswyddau gofal fod yr un mor gymhleth â dyletswyddau oedolion, ac weithiau roedd eu dyletswyddau'n dechrau o oedran ifanc. Roedd hyn yn aml yn cyfrannu at broblemau cymdeithasol, yn ogystal â'r problemau yn eu bywydau personol, a dywedwyd bod gofalwyr ifanc yn cael trafferth gyda thrawma ac yn profi caledi difrifol neu amlwg mewn rhai achosion.


Er gwaethaf y baich hwn, nodwyd unwaith eto bod sefydliadau prif ffrwd megis ysgolion yn anghymwys i gefnogi gofalwyr ifanc i ymdopi â'u heriau. Roedd problemau symudedd mewn rhai achosion yn gosod cyfyngiadau pellach ar fywydau a photensial gofalwyr ifanc, a nodwyd profiadau o ran diffyg ymreolaeth ochr yn ochr â hyn. Nodwyd bod yr heriau hyn wedi dechrau effeithio ar safbwynt rhai gofalwyr ifanc, a mynegodd un unigolyn farn arbennig o sinigaidd am ei sefyllfa ei hun.

> *"Edrychom ar strategaethau ymdopi, ond roedd India'n meddwl na fyddai'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio."*
>
> **CV005, P23, L27**

## 3.3 Grŵp B – Potensial

Diagram thematig – Grŵp B

Ffig b1




### 3.3.1 Thema B1: Potensial na fanteisiwyd arno (ffig. b1)

**Potensial na fanteisiwyd arno**

> *"Mae gennyf anabledd dysgu ac rwy'n fyddar. Rwy'n gwirfoddoli mewn sefydliad gofal ..."*
>
> **CV015, P54, L7**

Er gwaethaf yr heriau niferus ac eang a wynebir gan y gwasanaethau iechyd yng Nghymru, nododd yr astudiaethau achos botensial sylweddol hefyd i ddatblygu ac ehangu'r gwasanaethau a ddarperir ymhellach. Er bod hyn yn dangos, yn rhannol, anallu gwasanaethau i ddarparu hyd eithaf eu gallu hyd at y cyfnod a gwmpesir gan yr astudiaethau hyn, mae hefyd yn cyflwyno'r cyfle i symud ymlaen mewn modd adeiladol, ac mae rhai meysydd clir ar gyfer gwelliant wedi'u nodi.

Ystyriwyd yn eang bod gan wasanaethau y potensial i gynnig manteision mewn sawl maes, yn benodol agweddau personol a chymdeithasol, yn ogystal ag ansawdd cyffredinol bywydau defnyddwyr.

Nodwyd y potensial hwn mewn detholiadau ledled y sampl, gyda chydnabyddiaeth yn dod yn bennaf gan bobl sydd wrthi'n ymwneud â darparu gwasanaethau eu hunain. O'r safbwynt hwn, soniwyd am y potensial ar gyfer cydweithio a chydgynhyrchu pellach, ac roedd trefniadaeth yn fater cyffredin, gyda diffyg trefniadaeth effeithiol o ran gwasanaethau'n cael ei ystyried yn ffactor cyfyngu. Mewn un achos crybwyllwyd hefyd fod diffyg o ran casglu data yn faes y gellid ei ddatblygu er mwyn meithrin gallu.


Un maes potensial diddorol oedd gwneud y gorau o'r sylfaen defnyddwyr gwasanaethau sydd â diddordeb mewn dod yn ddarparwyr. Nodwyd bod defnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys y rhai ag anableddau dysgu, yn chwilio am gyfleoedd i weithio ym maes darparu gwasanaethau eu hunain, ac roedd un enghraifft yn disgrifio menyw ifanc yn y sefyllfa hon a oedd yn gwirfoddoli ond yn chwilio am gyflogaeth â thâl. Roedd hyn yn enghraifft glir o gyfle sy'n llesol i'r ddwy ochr, drwy feithrin gallu sydd hefyd o fudd i'r rhai sy'n gweinyddu'r ddarpariaeth. Roedd yr enghraifft yn dangos ei bod yn debygol y byddai trefniadau fel hyn yn gofyn am oruchwyliaeth a throsolwg ychwanegol, ond bod hyn yn bosibl iawn a bod modd cyflawni'r addasiadau gofynnol a'u rhoi ar waith yn llwyddiannus.

> *"Dysgais hefyd fy mod yn cael fy nerbyn am y person ydw i, nid beth mae pobl yn ei weld."*
>
> **CV015, P55, L17**

# 3.4 Grŵp C – Ffactorau pwysig

## Diagram thematig – Grŵp C

Ffig c1




### 3.4.1 Thema C1: Pwysigrwydd cymorth gan gymheiriaid (ffig. c1)

**Pwysigrwydd cymuned**

> *"Mae'r grŵp hwn wedi bod mor ddefnyddiol, drwy fy rhoi mewn cysylltiad â mamau eraill sy'n mynd drwy hyn, rhannu ein storïau, a chefnogi ein gilydd ..."*
>
> **CV001, P9, L5**

Un darn o wybodaeth a ddatgelwyd gan y dadansoddiad oedd gwerth cymorth gan gymheiriaid. Roedd pwysigrwydd cymuned yn bwnc a gododd droeon yn yr astudiaethau achos, ac mae hyn yn amlwg yn elfen allweddol o lesiant defnyddwyr gwasanaethau ac yn chwarae rhan bwysig o ran effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir ledled y rhanbarthau. Roedd gwasanaethau'n amlwg yn gallu hwyluso'r ymdeimlad hwn o gymuned a helpu defnyddwyr gwasanaethau i ddod o hyd i hynny.

Roedd cymunedau hygyrch a chydlynus yn cynnig amryw byd o fanteision i ddefnyddwyr. Maent yn darparu manteision cyfannol i'r defnyddwyr gwasanaethau sy'n ymwneud â nhw ac yn chwarae rhan bwysig o ran dileu rhwystrau rhwng demograffeg, yn enwedig y rhai o grwpiau oedran gwahanol. Roedd y defnydd o seilwaith cymunedol a rennir a mannau amlddefnydd yn enghraifft flaenllaw o un ffordd o wireddu hyn, a dangoswyd bod y rhwydweithiau cymdeithasol sy'n deillio o'r integreiddio cymunedol hwn yn ffynhonnell cymorth i bawb, a all fod yn hollol annibynnol ar y gwasanaethau a ddarperir, gan, o bosibl, leihau dibyniaeth.

Mae cymunedau sy'n gweithio'n dda hefyd o fudd i wasanaethau. Nodwyd eu bod yn helpu i ledaenu ymwybyddiaeth ymhlith unigolion o'r ddarpariaeth sydd ar gael, ac, mewn un achos, roedd y gymuned leol hyd yn oed wedi atgyfeirio unigolyn yn uniongyrchol at wasanaeth. Roedd gwasanaethau'n amlwg yn cael effaith uniongyrchol a chadarnhaol ar y broses o ffurfio a datblygu cymunedau lleol, ac roedd manteision i'r ddwy ochr, a dangoswyd hefyd bod gwasanaethau'n cael eu cefnogi a'u hariannu'n uniongyrchol gan y cymunedau hyn mewn rhai achosion.

### Pwysigrwydd teulu

> *“Mae bellach yn mwynhau 'amser i'r bechgyn' gyda'i Dad ac mae'n colli arno'i hun yn llai aml ac mewn modd llai difrifol.”*
>
> **WG002, P3, L22**


Ffynhonnell bwysig arall ar gyfer cymorth gan gymheiriaid oedd teuluoedd y defnyddwyr gwasanaethau. Roedd cydlyniant ac ymgysylltiad teuluol yn ffactorau arwyddocaol ar gyfer llesiant ledled ystod eang o'r astudiaethau achos a ddarparwyd, ac roedd manteision cymorth teuluol o ran bywydau personol y defnyddwyr yn gyson, yn eglur, ac yn amlwg yn bwysig er mwyn gwireddu canlyniadau da. Yn ogystal, mewn sawl achos, roedd teuluoedd yn ymwneud yn uniongyrchol â chynllunio a darparu dyletswyddau gofal y gwasanaethau a dyletswyddau gofal a arweinir yn annibynnol, gan wneud eu cymorth yn arbennig o allweddol.

Dangoswyd unwaith eto fod gwasanaethau ledled Cymru'n cefnogi unedau teuluol yn uniongyrchol ac yn cyfrannu at y manteision niferus y gall y math hwn o gymorth eu cynnig i ddefnyddwyr gwasanaethau.


## 3.5 Grŵp D – Gwasanaethau'n gweithio'n dda

Diagramau thematig – Grŵp D

Ffig d1




Ffig d2




Ffig d3



### 3.5.1 Thema D1: Gwasanaethau'n gweithio'n effeithiol (ffig. d1)

**Gweithio gyda'i gilydd**

> *"Mae'r broses ymgynghori'n hwyluso lefelau cydweithio a chyd-ddealltwriaeth, sydd, yn eu tro, yn arwain at wasanaeth ac ymyriad mwy cydlynus."*
>
> **NW009, P5, L46**

Roedd yr astudiaethau achos yn cofnodi lefel uchel o gydweithio, cydweithredu a chydgynhyrchu rhwng gwasanaethau ledled Cymru. Roedd hyn yn golygu ymwneud ag amrywiaeth o randdeiliaid gwahanol, megis darparwyr, arbenigwyr a theuluoedd hyd yn oed. Roedd y cydweithio hwn yn aml yn ganlyniad i newidiadau mewn amgylchiadau i ddefnyddwyr gwasanaethau. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn ganlyniad i'r broses heneiddio, ond roedd eraill yn ymwneud â symud i leoliadau gwahanol, ac roedd gwasanaethau'n cydweithio ledled lleoliadau ac ardaloedd gwahanol yn thema gyffredin yn yr astudiaethau achos.

Dangoswyd bod y cydweithredu hwn yn llwyddiannus i raddau helaeth a'i fod yn galluogi gwasanaethau i ehangu eu gallu a'u cylch gwaith i ddarparu ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a chanddynt ofynion o amrywiol fathau a lefelau. Mae gwasanaethau'n llwyddo i greu partneriaethau arbenigol effeithiol er mwyn mynd i'r afael ag anghenion unigol a'u deall yn well, ac roedd cydberthnasau personol ymhlith darparwyr yn allweddol o ran gwneud i'r trefniadau hyn weithio.

**Gweithio'n foesegol**

> *"Gwnaethom drafod … manteision amgylcheddol cynhyrchion di-blastig a'r niwed y gall gwaredu cynhyrchion plastig ei wneud i'n hecosystem."*
>
> **CTM003, P3, L2/5**

Roedd y gwasanaethau hefyd yn amlygu agwedd foesegol gadarn tuag at y gwaith y maent yn ei gyflawni. Dangoswyd yn gyson bod staff a darparwyr yn ymdrin â'u dyletswyddau gan amlygu gofal ac ystyriaeth, a'u bod yn gallu cynnig cymorth gwirioneddol gefnogol i ddefnyddwyr gwasanaethau a sicrhau bod eu hanghenion sylfaenol yn cael eu diwallu.

Roedd y gwasanaethau hefyd yn amlygu ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol a'r angen i weithio mewn modd ecogyfeillgar, ac roeddent yn cynnwys hyn yn eu harfer proffesiynol ac yn codi ymwybyddiaeth o'r materion hyn ymhlith y defnyddwyr unigol a'r cymunedau yr oeddent yn gweithio gyda nhw.

**Gweithio'n effeithlon**

> *"Rydym wedi gallu sefydlu patrwm o gydweithio a rhannu cyfrifoldeb/dirprwyo asesiadau sydd wedi gwella mynediad ac wedi cynyddu'r cyfle ar gyfer asesiadau mwy amserol."*
>
> **NW008, P2, L10**

Thema arall a oedd yn amlwg yn yr astudiaethau achos oedd yr ymdrechion a wnaed gan wasanaethau i weithio'n effeithlon a gwneud y defnydd gorau o'r amser a'r adnoddau a oedd ganddynt. Er gwaethaf y materion o ran capasiti a'r heriau systemig y mae gwasanaethau'n eu hwynebu, mae'r astudiaethau achos yn dangos yn glir bod gwasanaethau a'u staff ar hyd a lled Cymru wrthi'n mynd i'r afael â'r problemau hyn. Arweiniodd hyn at alluogi gwasanaethau i gynnig darpariaeth o safon a chanlyniadau da i ddefnyddwyr gwasanaethau er gwaethaf eu capasiti cyfyngedig.

Dangoswyd bod effeithlonrwydd yn dod o sawl ffynhonnell a dull gweithredu gwahanol, gan gynnwys y defnydd o dechnolegau modern ac arloesol, rhaglenni ymyrryd yn gynnar, a darpariaeth leol wedi'i theilwra i anghenion penodol lleoliadau unigol. Roedd y gwasanaethau hefyd yn amlygu agwedd bragmataidd ac arloesol at weithio, er enghraifft

dod o hyd i ffyrdd i ddarpariaeth fod o fudd i ddefnyddwyr gwasanaethau gwahanol ar yr un pryd.

Nodwyd bod hyblygrwydd yn hanfodol yn yr ymdrech hon. Dangosodd y gwasanaethau barodrwydd i weithio'n hyblyg mewn sawl achos, gan gynnwys defnydd amrywiol o adnoddau gwasanaethau a chymunedol a seilwaith megis lleoliadau, yn ogystal â pharodrwydd i addasu darpariaeth yn unol â newidiadau mewn amgylchiadau ac anghenion.

Roedd y ffordd effeithiol hon o weithio yn esgor ar fanteision i wasanaethau a defnyddwyr fel ei gilydd, gan alluogi canlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaethau a lleihau anawsterau megis pwysau systemig, a chaniatáu i'r gwasanaethau eu hunain weithredu'n well. Mewn achosion eraill, nodwyd bod y ddarpariaeth iawn ar yr amser iawn wedi lleihau'r angen am ymyriad pellach.

## 3.5.2 Thema D2: Darpariaeth o ansawdd uchel (ffig. d2)

**Cynnig darpariaeth o ansawdd**

> *“Safbwynt MHM yw ei bod yn fraint darparu gweithgarwch o safon mor uchel y mae parch i'w enw da ledled y byd.”*
>
> **CV023, P64, L31**

Dywedodd staff, defnyddwyr ac ymwelwyr dro ar ôl tro fod y gwasanaethau a ddarperir a'r modd y cânt eu darparu ledled Cymru o ansawdd uchel. Y ffordd fwyaf blaenllaw y cafodd hyn ei fynegi oedd drwy nifer yr achosion lle dywedwyd bod y ddarpariaeth yn llwyddiannus; pan oedd yn gweithio fel y bwriadwyd, yn darparu gwelliant a manteision pendant, ac yn cyflawni ei nodau. Roedd enghreifftiau eraill yn cynnwys tystiolaeth gan bobl sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau a oedd yn eu disgrifio mewn modd cadarnhaol dros ben, ac fel testun balchder.

Cyfeiriwyd at ansawdd uchel y ddarpariaeth mewn ffyrdd llai uniongyrchol hefyd. Enghreifftiau nodedig oedd achosion lle aeth gwasanaethau ati i gymryd rhan weithgar mewn gwaith pwysig a chlodwiw, megis diogelu defnyddwyr gwasanaethau agored i niwed a chyfrannu at ymdrechion lliniaru COVID ledled y wlad. Fodd bynnag, roedd yr astudiaethau achos yn cynnwys sawl enghraifft o ddarparwyr gwasanaethau'n mynd y tu hwnt i'w dyletswyddau a'u gofynion swyddogol er mwyn sicrhau bod llesiant defnyddwyr gwasanaethau'n cael ei gynnal a bod gwasanaethau'n darparu ar eu cyfer mewn modd effeithiol.

Roedd sicrhau llwyddiant y ddarpariaeth yn ystod y camau hyn hefyd yn lleihau'r angen am ymyriadau pellach neu fwy amlwg yn ddiweddarach, gan helpu defnyddwyr a gwasanaethau fel ei gilydd.

**Darpariaeth wedi'i phersonoli**

> *“Mae'r tîm wedi dod i fy adnabod ac wedi fy nghefnogi i ddarganfod beth ydw i'n ei hoffi ac nad ydw i'n ei hoffi.”*
>
> **CV011, P36, L14**

Ffordd arall yr oedd gwasanaethau'n cynnig darpariaeth werthfawr ac o ansawdd uchel oedd drwy deilwra eu cymorth i gyd-fynd â dymuniadau ac anghenion defnyddwyr gwasanaethau. Roedd hyn yn golygu bod defnyddwyr gwasanaethau'n gallu cael yr help cywir ar eu cyfer, gan wella eu profiad o gael darpariaeth, ac arwain at ganlyniadau gwell. Roedd hyn yn thema gyffredin ledled y set ddata gyfan.

Enghraifft benodol oedd parhad darpariaeth sy'n gorfod cael ei chynnig gan staff pwrpasol. Drwy neilltuo staff i ddisgyblaeth neu faes penodol, roedd gwasanaethau'n gallu sicrhau bod staff yn meithrin yr arbenigedd a'r profiad gofynnol i ddod i adnabod defnyddwyr gwasanaethau ar lefel bersonol a thrwy hynny

ddarparu'r gofal a'r cymorth yr oedd arnynt eu hangen.

**Darpariaeth gyfannol**

> *"Drwy'r dull gweithredu cyfannol, cydgysylltiedig hwn, mae'r risg wedi'i lleihau hyd yr eithaf ac mae ei sgiliau wedi cael eu hybu a'u datblygu er mwyn ei helpu."*
>
> **NW010, P2, L30**

Roedd y gwasanaethau hefyd yn sicrhau ansawdd y ddarpariaeth drwy fabwysiadu dull gweithredu cyfannol, arloesol ac eang. Drwy ystyried ffactorau ehangach nad ydynt efallai'n amlwg ar unwaith, megis amgylchedd y defnyddwyr gwasanaethau, neu drwy gyflwyno amrywiaeth i brydau bwyd neu weithgareddau, roedd y gwasanaethau'n gallu sicrhau profiad mwy cyfoethog i ddefnyddwyr gwasanaethau ac, yn y pen draw, gyfrannu at brofiadau a chanlyniadau gwell.

Roedd y gwasanaethau hefyd yn gwireddu hyn drwy fod yn gynhwysol o ran pwy oedd yn cymryd rhan yn y ddarpariaeth a'r hyn yr oeddent yn gallu ei wneud. Dangoswyd hefyd fod mabwysiadu'r dull gweithredu cyfannol hwn ar gyfer darparu gwasanaethau yn dileu rhwystrau o ran mynediad, gan olygu bod y ddarpariaeth yn gallu cyrraedd mwy o ddefnyddwyr a sicrhau gwell effeithiolrwydd.

**Darpariaeth gyson**

> *"Y cytundeb oedd y dylai'r adeilad barhau i fod ar gael bob amser er budd pobl hŷn."*
>
> **CV004, P19, L19**

Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, roedd staff pwrpasol yn gallu ymgyfarwyddo a meithrin arbenigedd a oedd yn eu galluogi i deilwra eu darpariaeth yn unol ag anghenion penodol y defnyddwyr. Fodd bynnag, roedd staff pwrpasol hefyd yn gallu cynnig mantais arall ar ffurf cysondeb.

Nodwyd bod yr arbenigedd a'r cynefindra a ddaw yn sgil presenoldeb cyson y staff yn ffactor allweddol o ran gallu gwasanaethau i gydgynhyrchu'n effeithiol, ac roedd hyn yn un enghraifft yn unig o'r modd y dangoswyd bod darpariaeth gyson yn arwain at ganlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaethau. Roedd y cyfleoedd ar gyfer diogelu yn enghraifft arall o fanteision posibl trefniadau staffio cyson.

Fodd bynnag, nid staffio oedd yr unig agwedd ar y broses o ddarparu gwasanaethau i elwa o gysondeb. Cyfeiriwyd yn y sampl hefyd at bwysigrwydd neilltuo mannau pwrpasol i ddarparu gwasanaethau, gan sicrhau dibynadwyedd a diogelwch ar gyfer y broses o ddarparu gwasanaethau ac ar gyfer y defnyddwyr sy'n ymwneud â'r gwasanaethau.

### 3.5.3 Thema D3: Datblygu gwasanaethau (ffig. d3)

**Tyfu gallu**

> *"Bydd y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae wedi'u meithrin yn rhoi'r hyder iddi weithio gyda phobl ifanc eraill a'u teuluoedd yn y dyfodol."*
>
> **NW010, P3, L1**

Un o themâu mwyaf arwyddocaol yr astudiaethau achos oedd y camau a gymerwyd gan wasanaethau i dyfu eu capasiti. Fel y disgrifiwyd yn y themâu blaenorol, o ran yr anawsterau cyfredol a wynebir gan wasanaethau, roedd diffyg capasiti yn rhwystr mawr a oedd yn atal gwasanaethau rhag darparu hyd eithaf eu gallu. Fodd bynnag, mae'r sampl data'n darparu sawl enghraifft o ffyrdd y mae gwasanaethau nid yn unig yn gwneud y gorau o'r capasiti sydd ganddynt, ond hefyd yn cymryd camau i'w gynyddu.

Y mwyaf trawiadol ohonynt oedd drwy rannu gwybodaeth. Yn debyg i'r ffordd y gall

cydgynhyrchu effeithiol adeiladau ar gryfderau pawb a mynd i'r afael â bylchau a diffygion, mae rhannu gwybodaeth yn fodd i wasanaethau ddosbarthu'r wybodaeth a'r arbenigedd gofynnol er mwyn i eraill allu cyfrannu at y broses o roi help a chymorth, gan dyfu'r sylfaen darparwyr, a sicrhau bod y ddarpariaeth hon yn briodol ac yn effeithiol. Gwelwyd bod gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng gwasanaethau, staff, defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd, ac mewn un achos cyflwynwyd tystiolaeth o'r broses fwy ymarferol o ddatblygu sgiliau, gan alluogi mwy o bobl i gynnig y mathau o gymorth a gynigiwyd yn flaenorol gan staff yn unig.

Fel y nodwyd uchod, roedd cydgynhyrchu ei hun yn symbylydd sylweddol ar gyfer tyfu capasiti, a ganiataodd i wasanaethau gwahanol fynd i'r afael â diffygion pobl eraill a sicrhau nad oedd unrhyw fylchau na phroblemau i'w cael ym mhrofiadau'r defnyddwyr gwasanaethau o'r ddarpariaeth.

Yn yr un modd, mae gwasanaethau'n gweithio hefyd i gynyddu eu capasiti drwy sicrhau hygyrchedd, gan ofalu bod y ddarpariaeth y maent yn ei chynnig ar gael i'r nifer mwyaf posibl o ddefnyddwyr gwasanaethau drwy ddefnyddio adnoddau'n ddoeth.

Roedd ymyriadau cynnar yn ffordd arall yr oedd gwasanaethau'n ychwanegu capasiti. Drwy roi cymorth yn gynnar, cyn i broblemau gael y cyfle i waethygu, gall gwasanaethau sicrhau bod modd mynd i'r afael â materion gan ddefnyddio cyn lleied o amser ac adnoddau â phosibl, gan leihau'r straen ar ddefnyddwyr gwasanaethau a lleddfu pwysau ar y gwasanaethau eu hunain.

Cynyddwyd capasiti hefyd drwy gynnwys amrywiaeth o raglenni darpariaeth a'r sgiliau a'r wybodaeth arbenigol a ddaw yn eu sgil. Nodwyd yn benodol hefyd fod cyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol wedi cyfrannu'n uniongyrchol at allu gwasanaethau i dyfu eu capasiti.

Roedd y twf mewn cysondeb yn ddigon sylweddol fel bod gwasanaethau'n gwneud cynlluniau i ehangu yn y dyfodol ac, mewn nifer o achosion, yn bwrw ymlaen â hynny.

**Gwasanaethau'n hunanwella**

> *“Roeddem am ddeall beth oedd yn gweithio'n dda a beth y gellid ei wella, a defnyddio hyn i lywio ein penderfyniadau ac i adeiladu lleisiau pobl i mewn i'n gwaith.”*
>
> **CV004, P19, L10**

Yn ychwanegol at y twf mewn capasiti a ddisgrifir uchod, gwelwyd hefyd bod gwasanaethau'n mynd ati i ddatblygu drwy chwilio am gyfleoedd i hunanwella a gweithredu'r ymdrechion hyn. Gwelwyd hyn mewn dwy ffordd.


Y gyntaf oedd bod gwasanaethau'n myfyrio ac yn hunanwerthuso er mwyn pennu sut yr oeddent yn gweithredu ac i nodi meysydd i'w gwella. Yna dilynwyd hyn gan wasanaethau'n galluogi eu staff i gymryd rhan mewn dysgu a datblygu er mwyn adeiladu ar eu cryfderau eu hunain a mynd i'r afael â'u diffygion.

Yn ogystal, roedd llawer o wasanaethau wrthi hefyd yn gofyn am adborth allanol, yn bennaf gan ddefnyddwyr gwasanaethau ond hefyd gan ymwelwyr a phobl eraill sy'n elwa o'r gwasanaethau a ddarperir. Mae hyn yn adlewyrchu awydd clir y gwasanaeth i ddeall effaith ei waith ac i nodi unrhyw broblemau nad ydynt yn amlwg efallai i'r rheiny nad ydynt yn cael cymorth uniongyrchol.

Mewn rhai achosion, roedd y darparwyr gwasanaethau eu hunain yn cael eu grymuso o ganlyniad i gymryd rhan yn y ddarpariaeth, gan wella ymhellach eu profiadau eu hunain a gwella'r cymorth a ddarperir ganddynt.

## 3.6 Grŵp E – canlyniadau da

Diagramau thematig – Grŵp E



### 3.6.1 Thema E1: Defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu grymuso

**Defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu grymuso**

> *"Mae wedi bod yn barod i ddarllen yn uchel am y tro cyntaf. Mae ei Fam yn teimlo bod hyn am ei fod yn gryfach ac yn gallu wynebu'r risg o fethu."*
>
> **WG002, P3, L25**

Mantais fawr yr oedd gwasanaethau'n gallu ei chynnig i ddefnyddwyr gwasanaethau oedd grymuso. Roedd y gwasanaethau'n gallu adfer ymdeimlad o alluogedd a rheolaeth i'r defnyddwyr gwasanaethau, a oedd ar goll yn aml yn ôl yr astudiaethau achos, yn enwedig yn achos defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu cynnwys yn eu penderfyniadau gofal eu hunain. Yn ogystal, roedd yna fantais ddwbl arall, yn gymaint â bod rhoi hwb sylweddol i annibyniaeth defnyddwyr gwasanaethau yn golygu bod gwasanaethau hefyd yn teimlo llai o straen o ganlyniad i hynny.

Roedd y gwasanaethau'n gallu darparu ystod o fanteision grymusol i'r bobl sy'n eu defnyddio, ac enghraifft arwyddocaol oedd sgiliau a gwybodaeth. Roedd y gwasanaethau'n gallu trosglwyddo gwybodaeth a ddysgwyd am anghenion y defnyddwyr gwasanaethau i'r bobl sy'n agos iddynt, a hefyd rhannu sgiliau a thechnegau gofalu ymarferol fel bod defnyddwyr gwasanaethau a'u cymunedau'n gallu cefnogi eu hunain. Roedd y broses alluogi hon hefyd yn cyflawni swyddogaeth ataliol, lle'r oedd yr ymreolaeth a roddwyd i ddefnyddwyr o ran eu gofal eu hunain yn eu galluogi i osgoi cymhlethdodau yn y dyfodol.

Roedd cyfleoedd ar gyfer grymuso hefyd yn cael eu rhannu mewn ffyrdd symlach, er enghraifft drwy roi cymorth ariannol uniongyrchol, a chreu gwelededd i ofalwyr ifanc.

**Symud y momentwm ymlaen**

> *"Rydw i wedi bod yn ystyried Bella ar gyfer ein sesiynau cyfeillio a fydd yn dechrau ym mis Ionawr, fodd bynnag mae ei gwelliant wedi bod mor ardderchog fel nad ydw i'n siŵr a fydd angen hyn."*
>
> **CV009, P33, L32**

Dangosodd yr astudiaethau achos sawl enghraifft o ddefnyddwyr gwasanaethau'n profi cynnydd mewn momentwm o ran eu datblygiad personol. Mewn un achos, roedd y defnyddwyr wedi elwa o ddarpariaeth lwyddiannus i'r fath graddau eu bod wedi datblygu y tu hwnt i'r angen amdani. Mewn achos arall, dywedwyd bod y defnyddwyr wedi mynegi ewyllys i ddilyn addysg bellach. Roedd enghraifft wahanol hefyd yn dangos bod y cyfleoedd a grëir gan ddarpariaeth lwyddiannus yn gallu creu cylch o gynnydd, lle y gall cyfleoedd sy'n deillio o weithredu cadarnhaol, yn eu tro, greu mwy o gyfleoedd.

### 3.6.2 Thema E2: Gwelliannau i fywydau personol defnyddwyr

**Gwelliannau i ansawdd bywyd**

> *"Mae'r cleientiaid yn symud ymlaen, gan ailddarganfod eu lleisiau, y grefft o sgwrsio, gwneud ffrindiau newydd, aildanio diddordebau, teimlo'n fwy cadarnhaol amdanynt eu hunain, eu bywydau, a'u dyfodol."*
>
> **CTM005, P1, L42**

Elfen bwysig o'r astudiaethau achos oedd y gwelliannau a'r manteision pendant i ansawdd bywyd defnyddwyr gwasanaethau yn sgil y gwasanaethau a ddarparwyd. Roedd hyn yn agwedd gyffredin ac eang ar y ddarpariaeth, a oedd yn gwella sefyllfaoedd defnyddwyr gwasanaethau mewn ffyrdd amrywiol. Yn yr achos hwn, cymerwyd bod "ansawdd bywyd" yn cynnwys cyfleoedd a gwelliannau i brofiad bywyd defnyddwyr.

Roedd bywydau personol y defnyddwyr gwasanaethau'n elwa mewn sawl ffordd o'r gwelliannau hyn. Gwelwyd hyn yn bennaf drwy wireddu canlyniadau buddiol a dymunol megis boddhad personol, ymreolaeth, sefydlogrwydd i ofalwyr iau, ac argaeledd emosiynol ymhlith pobl ifanc, ond gwelwyd hyn hefyd ar ffurf manteision rhyngbersonol megis cydberthnasau teuluol gwell ac ymyriadau grymuso wedi'u hanelu at alluogi gofalwyr di-dâl i gefnogi eu llesiant eu hunain.

Cafodd y gwasanaethau a ddarperir eu cysylltu'n uniongyrchol â'r manteision hyn, a nodwyd yn benodol bod ymyriadau teuluol yn lleddfu rhywfaint o'r pwysau a wynebir gan deuluoedd yng Nghymru. Nodwyd yn benodol hefyd fod cydgynhyrchu yn galluogi ac yn grymuso ymyriadau fel hyn.

Roedd effeithiau'r manteision hyn yn sylweddol, a dywedwyd bod y buddiolwyr yn dangos newidiadau aruthrol o ganlyniad.

**Manteision cymdeithasol**

> *“Mae wedi dod yn fwy hyderus a chymdeithasol ac mae'n mwynhau'r amser mae'n ei dreulio gyda'i gymheiriaid ac yn cymdeithasu yn y gymuned leol.”*
>
> **CV010, P34, L41**

Roedd y ddarpariaeth hefyd yn cynnig manteision o ran bywydau cymdeithasol pobl. Roedd hyn yn un o'r elfennau thematig mwyaf arwyddocaol yn y sampl cyfan, ac fe'i gwelwyd lle'r oedd defnyddwyr gwasanaethau'n dod o hyd i fwy o gysylltiad mewn cymunedau daearyddol a chymdeithasol, gan ddatblygu cydberthnasau teuluol cryfach a mwy cydlynus, a chymryd cyfleoedd i gwrdd â phobl mewn amgylchiadau tebyg i'w rhai nhw, ac i dreulio amser gyda nhw. Roedd hyn yn enghraifft arbennig o nodedig, ac roedd cymorth gan gymheiriaid yn gyfrannwr cyson a phwysig at fanteision i fywydau personol defnyddwyr.

Yn yr un modd, nodwyd hefyd fod yr agwedd gymdeithasol ar wasanaethau wyneb yn wyneb yn rhan bwysig o fywydau defnyddwyr, ac mewn un achos dywedwyd bod hynny'n arwain yn uniongyrchol at ganlyniadau da i ddefnyddwyr gwasanaethau.

### 3.6.3 Thema E3: Gwasanaethau'n cael eu gwerthfawrogi

**Cynnydd mewn ymgysylltiad**

> *“Dywedodd ei mam ei bod hi'n teimlo bod eraill yn 'gwrando arni' ac mae bellach yn estyn allan i'r nyrs AD. Yn flaenorol, roedd hi'n gwylio rhag ymddiried mewn gweithwyr proffesiynol.”*
>
> **CV002, P13, L42**

Dangoswyd bod ymgysylltiad â gwasanaethau'n cynyddu ledled yr astudiaethau. Gwelwyd hyn ar ffurf cynnydd yn nymuniad pobl i ymgysylltu â darpariaeth ac yn nifer y bobl a oedd yn mynd ati i wneud hynny, gydag eraill yn dechrau ymwneud â darparu'r gwasanaethau eu hunain.

Priodolwyd y dymuniad i chwilio am gymorth yn rhannol i'r ymddiriedaeth a grëwyd drwy ddarparu gwasanaethau eraill yn llwyddiannus. Roedd defnyddwyr gwasanaethau hefyd yn cael eu cefnogi i'w defnyddio, ac roedd defnyddio cynnwys penodol ac wedi'i dargedu yn effeithiol o ran cynyddu ymgysylltiad mewn rhai achosion. Adlewyrchwyd hyn yn y ffaith yr ystyriwyd bod defnyddwyr gwasanaethau'n ymgysylltu â gwasanaethau'n eiddgar ac yn wirfoddol, a dywedwyd bod llawer o unigolion yn atgyfeirio eu hunain heb fewnbwn pobl neu ymarferwyr eraill. Fel y soniwyd, mewn sawl achos, roedd y rhai a oedd wedi derbyn gwasanaethau'n mynd ymlaen i gymryd rhan yn y broses o ddarparu a chyflawni'r gwasanaethau eu hunain.

Gellir gweld y cynnydd hwn mewn ymgysylltiad ar ffurf y sylfaen amrywiol a chynyddol o ddefnyddwyr a oedd yn ymwneud ag ystod eang o wasanaethau ac ardaloedd gwahanol.

**Bodlonrwydd ar y gwasanaethau a ddarperir**

> *"Roedd yr adborth gan y gofalwyr ifanc a'r rhieni'n gadarnhaol iawn. Roedd yr adborth yn cynnwys 'dyma'r peth gorau rydym erioed wedi'i wneud gyda gofalwyr ifanc' a 'Dydw i byth yn cael cyfle i wneud pethau fel hyn'."*
>
> **NW003, P1, L49**

Roedd yr astudiaethau achos yn adlewyrchu boddhad cyffredinol gyda'r gwasanaethau a'u darpariaeth. Mynegwyd hyn gan ddefnyddwyr a staff fel ei gilydd.

Roedd y ddau grŵp yn fodlon ar safon y ddarpariaeth a gynigiwyd gan y gwasanaethau a'r effeithiau cadarnhaol a oedd yn deillio o hynny. Dywedwyd yn aml bod y ddarpariaeth o ansawdd uchel, ac roedd pwysigrwydd ac effaith rhai o'r enghreifftiau mwyaf dymunol o ddarpariaeth yn golygu bod defnyddwyr a staff yn ystyried hyn yn werthfawr dros ben.

# 4. Trafodaeth

Fel y dangoswyd yn y canfyddiadau, cynhyrchodd y dadansoddiad lawer iawn o ddata cyfoethog a chraff. Bydd y data hyn yn cael eu cynhwyso i'r cwestiynau ymchwil nawr. Bydd adran 4.1 yn mynd i'r afael â CY1, sy'n ymwneud â'r themâu a nodwyd yn yr astudiaethau achos, a bydd adran 4.2 yn mynd i'r afael â CY2, sy'n ymwneud â pha mor ddefnyddiol yw'r fformat astudiaethau achos ar gyfer y math hwn o ymchwil.

## 4.1 Themâu'r astudiaethau achos

Mae'r canfyddiadau'n nodi un thema ar ddeg ar wahân ledled yr astudiaethau achos, sy'n ffurfio naratif clir.

Mae gwasanaethau'n wynebu diffyg capasiti enbyd. Er gwaethaf galw cynyddol, mae gwasanaethau o dan bwysau oherwydd prinder cyllid a staff, sy'n arwain at fylchau mewn darpariaeth a chanlyniadau gwaeth. Nid yw cydgynhyrchu mor eang nac effeithiol ac y gallai fod, a gall cydweithredu rhwng gwasanaethau fod yn anodd weithiau, gan effeithio ar ddarparwyr a defnyddwyr gwasanaethau fel ei gilydd.

Mae'r heriau a wynebir gan unigolion ledled y wlad yn gymhleth. Mae rhwystrau i fynediad yn parhau i gyfyngu ar ymgysylltiad ac yn cynnwys cyfuniad o ffactorau personol ac amgylchiadol. Effeithir yn arbennig ar ardaloedd gwledig, ac mae gwahaniaethau rhanbarthol o ran ansawdd gwasanaethau a diffyg seilwaith yn gorfodi rhai i gyfaddawdu o ran eu llesiant a'u rhwydweithiau cymorth os ydynt am fanteisio ar gyfleoedd newydd. Roedd y sylfaen defnyddwyr gwasanaethau yn cynnwys sawl grŵp demograffig a all yn aml wynebu pwysau sydd yn gorgyffwrdd. Mae gofalwyr di-dâl, yn enwedig y rhai ifanc, yn profi anhawster sylweddol, ac mae pobl ifanc eraill yn wynebu heriau ymddygiadol ac emosiynol nad yw gwasanaethau prif ffrwd fel ysgolion a cholegau yn ddigon cymwys i fynd i'r afael â nhw.

Er gwaethaf hyn, mae llawer o wasanaethau'n cyflawni manteision pendant o ran llesiant yr unigolion hyn ac yn dangos potensial i dyfu a gwella ymhellach. Mae posibiliadau megis ehangu'r sylfaen gwirfoddolwyr a chanolbwyntio mwy ar gydgynhyrchu yn cyflwyno cyfleoedd ar gyfer trefniadau gweithio mwy effeithlon sydd o fudd i'r ddwy ochr. Dangoswyd bod y gwasanaethau a ddarperir wedi helpu i wella cydberthnasau teuluol, cynyddu hunan-barch a galluogedd, a chynnig cyfleoedd i gyfoethogi ansawdd bywyd cyffredinol y defnyddwyr gwasanaethau. Roed manteision cymdeithasol ymgysylltiad yn elfen arbennig o arwyddocaol yn hyn o beth, ac roedd pwysigrwydd mwy o gysylltiad cymunedol a darpariaeth wyneb yn wyneb yn arbennig o amlwg. Mae cymorth gan gymheiriaid i deuluoedd a chymunedau, fel ei gilydd, yn allweddol i lesiant defnyddwyr gwasanaethau, ac mae gwasanaethau wrthi'n annog ac yn cefnogi hyn ac yn cael rhai manteision yn eu tro megis atgyfeiriadau cymunedol ac ymdrechion codi arian.

Yn ogystal, mae'r gwasanaethau'n dangos ymrwymiad clir i gynnig darpariaeth o ansawdd uchel, ac yn canolbwyntio ar ffyrdd effeithiol ac effeithlon o weithio i sicrhau'r capasiti gorau posibl ac i wneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael. O ganlyniad, mae defnyddwyr a staff yn rhoi gwerth mawr ar wasanaethau a'u darpariaeth, a chafodd nifer ohonynt eu disgrifio fel rhai llwyddiannus ac effeithiol. Nodwyd hefyd fod gwasanaethau'n gwella eu hunain yn gyson drwy fyfyrio ar eu perfformiad eu hunain, a'i werthuso, a datblygu capasiti. Roedd cydgynhyrchu,

unwaith eto, yn ffactor allweddol yn hyn o beth, ac yn helpu i fynd i'r afael â bylchau a sicrhau arbenigedd pwnc-benodol er mwyn rhoi cymorth uniongyrchol ac wedi'i dargedu. Roedd y boddhad a fynegwyd gan ddefnyddwyr gwasanaethau'n cael ei adlewyrchu yn y bwriad a fynegwyd i barhau i ymgysylltu â gwasanaethau, unigolion yn estyn allan am y tro cyntaf, neu ddefnyddwyr gwasanaethau'n mynd ar drywydd eu datblygiad personol a phroffesiynol eu hunain.

At ei gilydd, mae'r themâu hyn yn disgrifio sefyllfa lle mae sbectrwm eang o unigolion yn wynebu rhwystrau cymhleth, sy'n gorgyffwrdd, ac mae cyfuniad o ffactorau personol, systemig ac amgylchiadol yn cyfrannu at deimladau o golli pŵer ac ymddieithrio. Mewn ymateb, mae gwasanaethau a phrosiectau a ariennir gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn mynd i'r afael â'r materion hyn yn gyson drwy gynnig darpariaeth effeithiol, o ansawdd uchel, a gwerthfawr, ac mae cydgynhyrchu yn chwarae rhan allweddol drwyddi draw. Ymhlith hyn, mae staff y gwasanaethau'n parhau i ddangos ymrwymiad i fyfyrio a hunanwella'n barhaus, a dymuniad i gynnal y safonau uchaf ac i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i ddefnyddwyr gwasanaethau.

## 4.2 Gwerthuso'r fformat astudiaethau achos

Er bod astudiaethau achos eisoes yn ddull poblogaidd a chyffredin ar gyfer casglu data ansoddol mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, roedd yr adroddiad hwn yn cynnig cyfle i archwilio defnyddioldeb y fformat astudiaethau achos wrth fonitro perfformiad rhaglenni megis y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Yn yr adroddiad hwn, roeddent yn cynnig ffordd werthfawr o gofnodi profiadau pobl o brosiectau a gwasanaethau a ariennir gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

Un cryfder nodedig oedd yr amrywiaeth eang o safbwyntiau a gynigiwyd. Roedd y cyfuniad o adroddiadau gan ddefnyddwyr gwasanaethau, staff a rheolwyr yn galluogi archwiliad cynhwysfawr o wir sefyllfa'r gwasanaethau hyn a'r modd y maent yn gweithredu. Yn yr un modd, roedd yr ehangder profiad hwn yn gallu rhoi cipolwg a fyddai'n anodd ei gael fel arall, er enghraifft adroddiadau gan weithwyr cymdeithasol a therapyddion.

Ar y llaw arall, cyflwynodd yr amrywiaeth o adroddiadau rai problemau. Y broblem fwyaf blaenllaw oedd y gwahaniaeth ansawdd rhwng llawer o'r astudiaethau achos. Roedd amrywiaeth anferth o ran cynnwys, cystrawen, gramadeg, ac ansawdd ysgrifennu cyffredinol yr astudiaethau achos a ddarparwyd, er bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi arweiniad strwythurol clir o'r cychwyn. Roedd hyn yn golygu y cafodd llawer o astudiaethau achos, a oedd â'r potensial i fod yn ddiddorol neu'n graff, eu hystyried yn anghymwys ar gyfer eu dadansoddi a'u heithrio o'r astudiaeth. I'r gwrthwyneb, roedd rhai astudiaethau achos yn llawer rhy hir neu fanwl, ac wedi ychwanegu amser at y broses ddadansoddi.

Er gwaethaf hyn, mae'r fformat astudiaethau achos yn parhau i weithio'n dda at ddibenion cynnal astudiaethau fel y rhain. Yn y dyfodol, dylid bod yn fwy gofalus wrth bennu'r meini prawf ar gyfer cyflwyniadau derbyniol er mwyn sicrhau safon ansawdd o'r cychwyn cyntaf na fyddai'n gofyn am sylw yn ystod y dadansoddiad ei hun.

# 5. Casgliad

## 5.1 Trosolwg cryno

Archwiliodd yr astudiaeth hon 31 o astudiaethau achos a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Roedd yr astudiaethau hyn yn canolbwyntio ar brosiectau a gwasanaethau a ariennir gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, a chawsant eu dadansoddi'n thematig er mwyn nodi eu prif themâu.

Gwnaeth y dadansoddiad ddatgelu darlun thematig clir o'r gwasanaethau hyn yn llywio amgylchiadau anodd mewn ffyrdd arloesol ac yn cyflawni gwerth gwirioneddol ym mywydau defnyddwyr gwasanaethau. Dangoswyd yn glir bod cyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn gwella bywydau defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd ar hyd a lled Cymru ac yn galluogi gwasanaethau i redeg yn effeithiol.

Er bod y gwasanaethau hyn yn dal i wynebu rhai heriau, mae'r manteision net yn sylweddol, a disgwylir y bydd y problemau cyfredol yn lleihau dros gyfnod cyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, ac y bydd y cryfderau a'r llwyddiannau'n parhau i dyfu.

Profwyd eto bod astudiaethau achos yn fformat effeithiol a defnyddiol ar gyfer ymchwilio i lwyddiant rhaglenni ariannu megis y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, er y nodwyd rhai materion o ran yr angen am adroddiadau o safon uwch ac ynghylch beth yw astudiaeth achos dderbyniol.

## 5.2 Y gwersi a ddysgwyd a goblygiadau i'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a'r rhaglenni a fydd yn ei holynu yn y dyfodol

Mae'r naratif thematig sy'n deillio o'r astudiaethau achos yn cyfleu delwedd gadarnhaol ar y cyfan o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Er bod pobl ledled Cymru yn wynebu heriau cymhleth ar hyn o bryd, ac y byddant yn parhau i wneud hynny, mae'r astudiaethau achos yn dangos bod y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn mynd i'r afael â'r materion hyn mewn modd effeithiol. Nodwyd tri maes arfer da allweddol sy'n ffurfio sylfaen gref ar gyfer ystyried unrhyw raglen a fydd yn olynu'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn y dyfodol: cynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn y ddarpariaeth, gwasanaethau sy'n hunanwella, a chydgynhyrchu rhwng gwasanaethau.

Mae cynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn y ddarpariaeth, pan fo'n briodol, yn cyflwyno'r cyfle ar gyfer trefniadau gweithio sydd o fudd i'r ddwy ochr, lle mae defnyddwyr gwasanaethau'n cael y cyfle i gyfrannu'n uniongyrchol at eu cymuned a'u datblygiad eu hunain, fel ei gilydd, gan greu ar unwaith gyfleoedd ar gyfer cydlyniant cymunedol, ac i leddfu pwysau a grymuso unigolion. Mae gan hyn y potensial i ddarparu canlyniadau da ar bob lefel ac maae'n cynrychioli maes addawol i'w archwilio ymhellach yn y dyfodol.

Er bod gweithluoedd eisoes yn amlygu ymrwymiad clir i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu rhedeg i safonau uchel, dylid manteisio, lle bynnag y bo modd, ar gyfleoedd i'w cefnogi i barhau i ymfalchïo yn eu gwaith ac i fyfyrio a hunanwella. Byddai hyn yn caniatáu i drefniadau yn y dyfodol wneud y gorau o brofiad uniongyrchol ac arbenigedd staff rheng flaen, a sicrhau cysondeb ac ansawdd y ddarpariaeth wrth symud ymlaen.

Cydgynhyrchu oedd un o'r elfennau mwyaf arwyddocaol ledled yr astudiaethau achos. Er ei bod yn amlwg bod lle i wella mewn rhai achosion, mae'r sampl yn ei gyfanrwydd yn dangos yn glir yr hyn y gall cydweithio effeithiol ei gynnig o'i wneud yn llwyddiannus. Fel agwedd graidd ar y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a'i chanlyniadau arfaethedig, dylid rhoi sylw arbennig i sicrhau yr archwilir ei photensial cymaint ag y bo modd, yr eir i'r afael ag unrhyw rwystrau a allai ddod i'r amlwg, a bod arferion gweithio da yn cael eu rhannu drwy'r un cysylltiadau y gall cydgynhyrchu ei hun ddarparu.

Mae'r tri arfer hyn yn debygol o barhau i fod yn sylfaenol i'r gwasanaethau a'r prosiectau sy'n derbyn cyllid gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar hyn o bryd, a hyd yn oed ar ôl i'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ddod i ben ar ddiwedd ei chyfnod pum mlynedd. Fodd bynnag, gan ragweld hyn, dylai'r canfyddiadau a'r dadansoddiadau dilynol yn astudiaethau achos yr ail a'r drydedd flwyddyn gael eu cymharu a'u casglu ochr yn ochr â'r rhai a ddisgrifir yma, er mwyn olrhain cynnydd yr elfennau hyn ac unrhyw dueddiadau eraill a allai ddod i'r amlwg. Bydd y rhain yn rhoi sylfaen wybodus a defnyddiol ar gyfer cysyniadu unrhyw raglen olynol, ac yn sicrhau bod y gwersi a'r ddirnadaeth a ddysgwyd yn cael eu dwyn ymlaen i'r dyfodol.

# Atodiad A

## Adnodd Arfarnu Beirniadol – Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

Enw'r Adolygydd ........................................................................................................ Dyddiad ..................................................

| **Dyddiad Adolygu**<br>Cliciwch neu tapiwch i ysgrifennu dyddiad. | **Ein Cyfeirnod**<br>Cliciwch neu tapiwch i ysgrifennu testun. | **Eu Cyfeirnod**<br>Cliciwch neu tapiwch i ysgrifennu testun. |
|---|---|---|
| **Ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol :**<br>☐ Caerdydd a'r Fro<br>☐ Cwm Taf Morgannwg<br>☐ Gwent<br>☐ Gogledd Cymru<br>☐ Powys<br>☐ Gorllewin Morgannwg<br>☐ Gorllewin Cymru | **Model Gofal:**<br>☐ Gofal yn y Gymuned: Atal a Chydgysylltu Cymunedol<br>☐ Gofal yn y Gymuned: Gofal Cymhleth<br>☐ Gartref o'r Ysbyty<br>☐ Cefnogi Teuluoedd a Phlant<br>☐ Iechyd a Llesiant Emosiynol<br>☐ Datrysiadau Seiliedig ar Lety | |

| | Ydy | 4 | 3 | Aneglur | 2 | 1 | Nac ydy | 0 | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Defnyddiwyd y templed? | | | | | | | | | |
| 2. Defnyddiwyd penawdau? | | | | | | | | | |
| 3. Yn glir o safbwynt pwy ydyw? | | | | | | | | | |
| 4. A yw'r wybodaeth gefndir yn disgrifio'r gweithgarwch? | | | | | | | | | |
| 5. A oes enghreifftiau clir o'r hyn a weithiodd/na weithiodd? | | | | | | | | | |
| 6. A oes enghreifftiau clir o arfer da a sut olwg sydd ar dda? | | | | | | | | | |
| 7. A nodir y gwersi a ddysgwyd? | | | | | | | | | |
| 8. A yw'r canlyniadau a'r effeithiau wedi'u disgrifio'n glir? | | | | | | | | | |

**Overall appraisal:**

Cynnwys (16-32) ☐ Trafod (11-15) ☐ Eithrio (0-10) ☐

**Sgôr:** 4 Bodlonwyd yn Llawn, 3 Bodlonwyd, 2 Bodlonwyd yn Rhannol, 1 Bron â Bodloni, 0 Heb Fodloni.

# Atodaid B

## Themâu a grwpiwyd yn semantig a'u priod is-themâu

| Grŵp semantig | Thema | Is-thema |
|---|---|---|
| **A. Materion cyfredol** | **A1 Diffyg capasiti yn y gwasanaeth** | Diffyg capasiti yn y gwasanaeth |
| | | Diffyg cydgynhyrchu effeithiol |
| | **A2 Diffyg hygyrchedd** | Rhwystrau i fynediad |
| | | Cyfyngiadau daearyddol |
| | **A3 Defnyddwyr gwasanaethau'n cael anawsterau** | Defnyddwyr gwasanaethau'n cael anawsterau |
| | | Defnyddwyr gwasanaethau ifanc yn cael anawsterau |
| | | Gofalwyr ifanc yn cael anawsterau |
| | | Gofalwyr ifanc yn cael anawsterau |
| **B. Potensial** | **B1 Potensial na fanteisiwyd arno** | Potensial na fanteisiwyd arno |
| **C. Ffactorau pwysig** | **C1 Pwysigrwydd cymorth gan gymheiriaid** | Pwysigrwydd cymuned |
| **D. Gwasanaethau'n gweithio'n dda** | **D1 Gwasanaethau'n gweithio'n dda** | Gweithio gyda'i gilydd |
| | | Gweithio'n foesegol |
| | | Gweithio'n effeithlon |
| | **D2 Darpariaeth o ansawdd uchel** | Cynnig darpariaeth o ansawdd |
| | | Darpariaeth wedi'i phersonoli |
| | | Darpariaeth gyfannol |
| | | Darpariaeth gyson |
| | **D3 Datblygu gwasanaethau** | Tyfu gallu |
| | | Gwasanaethau'n hunanwella |
| **E. Canlyniadau da** | **E1 Defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu grymuso** | Grymuso defnyddwyr gwasanaethau |
| | | Symud y momentwm ymlaen |
| | **E2 Gwelliannau i fywydau personol defnyddwyr** | Gwelliannau i ansawdd bywyd |
| | | Manteision cymdeithasol |
| | **E3 Gwasanaethau'n cael eu gwerthfawrogi** | Cynnydd mewn ymgysylltiad |
| | | Bodlonrwydd ar y ddarpariaeth |
| **Amrywiol** | **Amrywiol** | Amrywiol |

# Atodiad C

## Is-themâu a'u priod godau

| Is-thema | Cod | Amlder |
|---|---|---|
| **Diffyg capasiti yn y gwasanaeth** | Y gwasanaeth yn profi anawsterau staffio | 8 |
| | Gwasanaethau'n profi anawsterau ariannol | 4 |
| | Diffyg gallu'r seilwaith yn achosi problemau | 4 |
| | Nid oes angen y gwasanaethau bob tro | 2 |
| | Diffyg capasiti yn achosi problemau | 1 |
| | Darparwyr gwasanaethau'n poeni am gapasiti | 1 |
| | Galw parhaus am y gwasanaethau | 1 |
| | Galw am wasanaethau arbenigol yn cynyddu | 1 |
| | Cyfyngiadau'r trefniadau cyfredol ar gyfer darparu gwasanaethau | 1 |
| | Diffyg gallu i ddarparu gwasanaethau arbenigol | 1 |
| | Bylchau o ran darparu gwasanaethau arbenigol | 1 |
| | Y gwasanaethau a ddarperir yn ddibynnol ar gyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol | 1 |
| | Cyllid cyfyngedig yn cyfyngu ar y ddarpariaeth | 1 |
| | Problemau systemig yn achosi cymhlethdodau | 1 |
| **Diffyg cydgynhyrchu effeithiol** | Diffyg cydweithio rhwng gwasanaethau gwahanol | 1 |
| | Amrywiadau mewn safonau ledled gwasanaethau | 1 |
| | Gall cydgynhyrchu ledled lleoliadau achosi anawsterau | 1 |
| | Mae diffyg cysondeb yn y ddarpariaeth yn achosi problemau | 1 |
| **Rhwystrau i fynediad** | Defnyddwyr gwasanaethau'n amharod i ddefnyddio gwasanaethau | 15 |
| | Diffyg capasiti o ran trafnidiaeth yn achosi problemau | 8 |
| | Pandemig COVID yn creu cymhlethdodau | 7 |
| | Diffyg ymgysylltiad yn creu rhwystrau | 3 |
| | Anhawster o ran ymgysylltu ag awdurdodau lleol | 3 |
| | Anghenion gofal iechyd ehangach yn creu rhwystrau i ddarpariaeth | 2 |
| | Defnyddwyr gwasanaethau'n cuddio materion sensitif | 2 |
| | Defnyddwyr gwasanaethau'n profi problemau symudedd | 2 |

| Is-thema | Cod | Amlder |
|---|---|---|
| | Problemau o ran cael darpariaeth feddygol | 2 |
| | Anghenion heb eu diwallu yn creu rhwystrau ychwanegol | 1 |
| | Defnyddwyr gwasanaethau'n peidio â datgelu yn achosi problemau | 1 |
| | Defnyddwyr gwasanaethau'n amharod i ddefnyddio gwasanaethau | 1 |
| | Rhagdybiaethau defnyddwyr gwasanaethau am y ddarpariaeth | 1 |
| **Cyfyngiadau daearyddol** | Cyfleodd cyfyngedig yn gorfodi cyfaddawdu y gellid bod wedi ei osgoi | 4 |
| | Lleoliadau gwledig yn profi problemau cymdeithasol | 2 |
| | Cymunedau gwledig yn brin o gyfleusterau | 1 |
| | Cyfyngiadau rhanbarthol ar gyfleoedd i bobl | 1 |
| | Mae yna ffocws daearyddol i'r gwasanaethau | 1 |
| **Defnyddwyr gwasanaethau'n cael anawsterau** | Defnyddwyr gwasanaethau'n profi anawsterau ariannol | 10 |
| | Defnyddwyr gwasanaethau'n cyflwyno anghenion cymhleth | 6 |
| | Cydadwaith ffactorau iechyd, cymdeithasol ac ariannol | 4 |
| | Cydberthnasau teuluol yn chwalu | 3 |
| | Defnyddwyr gwasanaethau'n profi anawsterau cymdeithasol | 3 |
| | Defnyddwyr gwasanaethau'n profi diffyg ymreolaeth | 2 |
| | Defnyddwyr gwasanaethau'n amlygu problemau ymddygiadol eithafol | 2 |
| | Problemau ymddygiadol yn cael effeithiau canlyniadol | 2 |
| | Defnyddwyr gwasanaethau'n profi anawsterau cyfathrebu | 2 |
| | Defnyddwyr gwasanaethau'n profi teimladau o golli pŵer | 2 |
| | Defnyddwyr gwasanaethau'n awyddus i gael ymreolaeth | 2 |
| | Gall anghenion defnyddwyr gwasanaethau arwain at sefyllfaoedd o argyfwng | 1 |
| | Defnyddiwr gwasanaethau hefyd yn ofalwr | 1 |
| | Defnyddiwr gwasanaethau'n cael anhawster diwallu ei anghenion sylfaenol ei hun | 1 |
| | Defnyddwyr gwasanaethau'n cyflwyno anghenion a diagnosisau cymhleth a chyfunol | 1 |
| | Defnyddwyr gwasanaethau'n chwilio am gymorth gan gymheiriaid | 1 |
| | Ymddygiad eithafol y defnyddiwr yn rhoi pwysau ar ei deulu | 1 |
| | Defnyddwyr gwasanaeth yn amlygu problemau ymddygiadol eithafol | 1 |
| | Defnyddiwr gwasanaethau'n profi teimladau o golli pŵer | 1 |
| | Defnyddwyr gwasanaethau'n awyddus i gael ymreolaeth | 1 |

| Is-thema | Cod | Amlder |
|---|---|---|
| **Defnyddwyr gwasanaethau ifanc yn cael anawsterau** | Person ifanc yn amlygu ymddygiad eithafol | 5 |
| | Problemau ymddygiadol person ifanc yn effeithio ar fywyd gartref | 2 |
| | Nid yw'r coleg yn gymwys i gefnogi'r defnyddiwr gwasanaethau | 1 |
| | Person ifanc yn amlygu gorddibyniaeth | 1 |
| | Person ifanc agored i niwed | 1 |
| | Problemau ymddygiadol yn effeithio ar gydberthnasau teuluol | |
| **Gofalwyr di-dâl yn cael anawsterau** | Gofalwyr di-dâl yn cyflawni dyletswyddau cymhleth | 5 |
| | Gofalwyr di-dâl yn ymddwyn yn anhunanol | 2 |
| | Dyletswyddau gofal yn cael effeithiau andwyol ar lesiant | 2 |
| | Dyletswyddau gofal yn mynd â holl amser y gofalwr | 2 |
| | Gall cefnogi plant ADY gyflwyno heriau | 2 |
| | Gofalwyr di-dâl yn anfodlon ar eu sefyllfa/dyletswyddau | 1 |
| **Gofalwyr ifanc yn cael anawsterau** | Gofalwyr ifanc yn profi anawsterau personol eithafol | 4 |
| | Gofalwyr ifanc yn profi problemau cymdeithasol | 3 |
| | Nid yw'r ysgol yn gymwys i gefnogi'r gofalwr ifanc | 2 |
| | Y dyletswyddau gofal yn bresennol o oedran ifanc | 2 |
| | Gofalwyr ifanc yn cyflawni dyletswyddau cymhleth | 2 |
| | Gofalwyr ifanc yn profi problemau symudedd | 1 |
| | Gofalwyr ifanc yn profi trawma | 1 |
| | Gofalwyr ifanc dan bwysau | 1 |
| | Gofalwyr ifanc yn amlygu barn sinigaidd | 1 |
| | Gofalwyr ifanc yn profi diffyg ymreolaeth | 1 |
| **Potensial na fanteisiwyd arno** | Gwasanaethau'n ystyried ehangu | 7 |
| | Darparwyr gwasanaethau'n cydnabod yr angen am drefniadaeth bellach | 6 |
| | Potensial gan wasanaethau i weithio'n fwy effeithlon | 1 |
| | Angen darpariaeth gyson | 1 |
| | Potensial gan wasanaethau i gynnig manteision personol | 1 |
| | Potensial gan wasanaethau i gynnig manteision cymdeithasol | 1 |
| | Potensial gan wasanaethau i wella ansawdd bywyd defnyddwyr | 1 |
| | Diffyg o ran casglu data | 1 |
| | Potensial ar gyfer mwy o gydgynhyrchu | 1 |

| Is-thema | Cod | Amlder |
|---|---|---|
| | Pobl ag anableddau dysgu yn awyddus i weithio | 4 |
| | Gwnaed addasiadau i ddarparu ar gyfer gweithwyr ag anableddau dysgu | 3 |
| | Mae angen i bobl ag anableddau dysgu gael goruchwyliaeth ychwanegol yn y gwaith | 3 |
| **Pwysigrwydd cymuned** | Y gwasanaeth yn meithrin ymdeimlad o gymuned | 11 |
| | Adnoddau cymunedol ar gael i'w rhannu | 6 |
| | Y gwasanaethau a ddarperir yn hwyluso cyswllt rhwng cenedlaethau | 5 |
| | Rhwydweithiau'n helpu i feithrin cysylltiadau cefnogol | 4 |
| | Mae angen i ddefnyddwyr gwasanaethau gael cymuned | 1 |
| | Defnyddwyr gwasanaethau'n dod o hyd i gymuned | 1 |
| | Rhwydweithiau cymunedol yn helpu i ledaenu ymwybyddiaeth o wasanaethau | 1 |
| | Y gymuned yn cynnig manteision cyfannol | 1 |
| | Y gymuned yn atgyfeirio unigolion | 1 |
| | Gwasanaeth yn cael ei ariannu gan y gymuned leol | 1 |
| **Pwysigrwydd teulu** | Cydberthnasau teuluol gwell yn cynnig manteision personol | 2 |
| | Y gwasanaeth o fudd i deuluoedd defnyddwyr | 2 |
| | Cymorth teuluol yn cyfrannu at ganlyniadau da | 1 |
| | Aelodau o'r teulu yn cyflawni dyletswyddau gofal gyda'i gilydd | 1 |
| | Y teulu'n cymryd rhan yn y broses o ddarparu gofal | 1 |
| **Gweithio gyda'i gilydd** | Gwasanaethau gwahanol yn gweithio gyda'i gilydd | 96 |
| | Gwasanaethau'n gweithio ledled lleoliadau | 42 |
| | Y teulu'n cymryd rhan yn y broses o ddarparu gwasanaethau | 21 |
| | Newidiadau yn amgylchiadau'r defnyddwyr sy'n cydweithredu â'r gwasanaeth | 5 |
| | Gwaith partneriaeth llwyddiannus | 3 |
| | Gwasanaethau'n darparu ar gyfer lefelau gwahanol o anghenion a darpariaeth | 3 |
| | Cydgynhyrchu'n cynnig dirnadaeth o anghenion defnyddwyr | 2 |
| | Gwasanaethau'n hwyluso partneriaethau arbenigol | 1 |
| | Cydberthnasau personol yn bwysig ar gyfer cydgynhyrchu effeithiol | 1 |

| Is-thema | Cod | Amlder |
|---|---|---|
| **Gweithio'n foesegol** | Gwasanaethau'n canolbwyntio ar ofal ac ystyriaeth | 2 |
| | Y gwasanaeth yn diwallu anghenion sylfaenol y defnyddwyr | 2 |
| | Y gwasanaeth yn amgylcheddol-ymwybodol | 2 |
| | Y gwasanaethau a ddarperir yn cynnwys ystyriaethau amgylcheddol | 1 |
| **Gweithio'n effeithlon** | Y gwasanaethau a ddarperir yn amlygu hyblygrwydd | 8 |
| | Darperir gwasanaethau a gynorthwyir yn dechnolegol | 6 |
| | Y gwasanaeth yn lleddfu'r pwysau ar y system | 2 |
| | Ymyrryd yn gynnar yn cyfrannu at ganlyniadau da | 2 |
| | Gwasanaethau lleol yn cynyddu effeithlonrwydd | 2 |
| | Darparu ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau gwahanol gyda'i gilydd | 1 |
| | Gwasanaethau'n amlygu dull gweithredu pragmataidd | 1 |
| | Gwasanaethau'n lleihau'r angen am ddarpariaeth bellach | 1 |
| | Defnydd hyblyg o adnoddau'r gwasanaeth | 1 |
| | Pwysigrwydd ymyrryd yn gynnar | 1 |
| | Addasu'r gwasanaethau a ddarperir | 1 |
| | Y gwasanaeth yn cynnig seilwaith cymunedol a rennir | 1 |
| | Yr angen am hyblygrwydd yn y gwasanaethau a ddarperir | 2 |
| **Cynnig darpariaeth o ansawdd** | Y gwasanaethau a ddarperir yn rhai llwyddiannus | 17 |
| | Darparu gwasanaethau o ansawdd uchel | 5 |
| | Darparwyr gwasanaethau'n mynd y tu hwnt i'r gofynion | 3 |
| | Y gwasanaeth yn cymryd rôl reng flaen | 1 |
| | Gwasanaethau'n cyflawni rôl ddiogelu | 1 |
| | Darpariaeth lwyddiannus yn lleihau'r angen am fesurau mwy eithafol | 1 |
| **Darpariaeth wedi'i phersonoli** | Gwasanaethau'n cynnig cymorth wedi'i deilwra | 21 |
| | Staff pwrpasol yn sicrhau parhad | 1 |

| Is-thema | Cod | Amlder |
|---|---|---|
| **Darpariaeth gyfannol** | Gwasanaethau'n amlygu dull cyfannol | 8 |
| | Y gwasanaethau a ddarperir yn amlygu amrywiaeth | 8 |
| | Cymorth cyfannol yn dileu rhwystrau | 2 |
| | Gwasanaethau'n mabwysiadau dull cynhwysol | 1 |
| | Amgylchedd priodol yn cyfrannu at ganlyniadau da | 1 |
| **Darpariaeth gyson** | Darpariaeth gyson yn arwain at ganlyniadau da | 5 |
| | Staff pwrpasol yn allweddol i gydgynhyrchu effeithiol | 2 |
| | Darpariaeth gyson yn cynnig manteision o ran diogelu | 1 |
| | Dynodi man pwrpasol | 1 |
| **Tyfu gallu** | Ychwanegu gallu drwy rannu gwybodaeth | 37 |
| | Cydgynhyrchu'n ychwanegu gallu | 21 |
| | Gwasanaethau'n gweithio i sicrhau hygyrchedd | 15 |
| | Y gwasanaeth yn bwriadu ehangu | 6 |
| | Cyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn ychwanegu gallu | 4 |
| | Darparwyr arbenigol yn ychwanegu gallu | 2 |
| | Ychwanegu gallu drwy gynnal hygyrchedd | 2 |
| | Ymyrryd yn gynnar yn lleihau'r straen ar wasanaethau | 2 |
| | Gwasanaethau'n ehangu | 1 |
| | Ychwanegu gallu drwy ddatblygu sgiliau | 1 |
| | Ymyrryd yn gynnar yn ychwanegu gallu | 1 |
| | Rhaglenni amrywiol yn ychwanegu gallu | 1 |
| **Gwasanaethau'n hunanwella** | Gwasanaethau'n cefnogi eu dysgu a'u datblygiad eu hunain | 6 |
| | Gwasanaethau'n myfyrio ar/gwerthuso eu perfformiad eu hunain | 5 |
| | Gwasanaethau wrthi'n gofyn am adborth | 4 |
| | Y darparwr gwasanaethau yn cael ei rymuso | 1 |

| Is-thema | Cod | Amlder |
|---|---|---|
| **Defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu grymuso** | Defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu grymuso | 60 |
| | Defnyddwyr gwasanaethau'n ymwneud â'u penderfyniadau gofal eu hunain | 14 |
| | Ymyriadau'n helpu rhieni sy'n ofalwyr i feithrin gwybodaeth | 8 |
| | Y gwasanaeth yn rhoi sgiliau i deuluoedd er mwyn iddynt gefnogi eu hunain | 7 |
| | Y gwasanaeth yn darparu dirnadaeth o anghenion defnyddwyr | 4 |
| | Y gwasanaeth yn cynnig cymorth ariannol | 2 |
| | Galluogi er mwyn atal | 2 |
| | Y gwasanaeth yn rhoi sgiliau i gymunedau er mwyn iddynt gefnogi eu hunain | 1 |
| | Y gwasanaeth yn rhoi sgiliau er mwyn i bobl gefnogi eu hunain | 1 |
| | Gwasanaethau'n helpu gofalwyr ifanc i gael sylw | 1 |
| **Symud y momentwm ymlaen** | Cyfleoedd yn creu mwy o gyfleoedd | 1 |
| | Defnyddwyr gwasanaethau'n ystyried addysg bellach | 1 |
| | Defnyddwyr gwasanaethau'n symud ymlaen y tu hwnt i'r ddarpariaeth | 1 |
| **Gwelliannau i ansawdd bywyd** | Gwasanaethau'n cynnig manteision i fywyd personol | 69 |
| | Gwasanaethau'n gwella ansawdd bywyd defnyddwyr | 21 |
| | Y gwasanaethau a ddarperir yn gwella cydberthnasau teuluol | 7 |
| | Ymyriadau'n helpu rhieni sy'n ofalwyr i gynnal eu llesiant eu hunain | 6 |
| | Gwasanaethau'n gwella ansawdd bywyd darparwyr | 5 |
| | Defnyddwyr gwasanaethau'n profi boddhad | 2 |
| | Cydgynhyrchu'n gwella ansawdd bywyd defnyddwyr | 2 |
| | Y rhai sy'n derbyn darpariaeth yn amlygu newid aruthrol | 1 |
| | Person ifanc yn cyflawni sefydlogrwydd | 1 |
| | Y gwasanaeth yn lleddfu'r pwysau ar deuluoedd | 1 |
| | Gwasanaethau'n sicrhau ymreolaeth | 1 |
| | Person ifanc yn amlygu argaeledd emosiynol | 1 |
| **Manteision cymdeithasol** | Gwasanaethau'n cynnig manteision cymdeithasol | 37 |
| | Cymorth gan gymheiriaid yn cynnig manteision personol | 3 |
| | Darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb yn cyfrannu at ganlyniadau da | 1 |

| Is-thema | Cod | Amlder |
|---|---|---|
| **Cynnydd mewn ymgysylltiad** | Defnyddwyr gwasanaethau'n chwilio am wasanaethau pellach | 5 |
| | Y rhai sy'n derbyn ymyriadau'n dechrau ymwneud â'r broses o'u darparu | 5 |
| | Y sylfaen defnyddwyr gwasanaethau'n adlewyrchu amrywiaeth | 2 |
| | Defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu cefnogi i gymryd rhan yn y broses ddarparu | 1 |
| | Darpariaeth lwyddiannus yn cynyddu ymddiriedaeth mewn darparwyr gwasanaethau | 1 |
| | Defnyddwyr gwasanaethau'n hunanatgyfeirio | 1 |
| | Ymgysylltiad eang â'r gwasanaethau a ddarperir | 1 |
| | Defnyddwyr gwasanaethau'n cyfrannu at y broses ddarparu | 1 |
| | Defnyddwyr gwasanaethau'n barod iawn i ddefnyddio gwasanaethau | 1 |
| | Gwasanaethau'n meithrin ymgysylltiad drwy ddefnyddio deunyddiau cyfarwydd | 2 |
| **Bodlonrwydd ar y gwasanaethau a ddarperir** | Defnyddwyr gwasanaethau'n fodlon ar y ddarpariaeth | 9 |
| | Y gweithlu'n fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir | 3 |
| | Y staff yn rhoi gwerth mawr ar y gwasanaeth | 2 |
| | Defnyddwyr yn rhoi gwerth mawr ar y gwasanaeth | 1 |
| **Amrywiol** | Y ddarpariaeth yn cynnwys gofal personol | 1 |
| | Gwasanaethau'n adeiladu ar ddeddfwriaeth | 1 |

# Atodiad D

## Cofnod o'r newidiadau i'r codau

- Cafodd y codau a oedd yn cyfeirio'n wreiddiol at "ymyriad EPAS" eu haddasu i gyfeirio'n fwy cyffredinol at "ymyriad" at ddibenion cymhwysedd ehangach.
- "Galw ychwanegol yn esgor ar gymhlethdodau" wedi'i ymestyn i greu "Galw ychwanegol ar wasanaethau yn esgor ar gymhlethdodau" at ddibenion penodolrwydd.
- Newidiwyd "pandemig COVID yn ysgogi addasiadau" yn "pandemig COVID yn achosi cymhlethdodau" at ddibenion cymhwysedd ehangach.
- Ymgorfforwyd "Gwasanaeth yn profi diffyg capasiti" yn "Diffyg capasiti yn creu problemau" er symlrwydd ac oherwydd bod yr unig enghraifft o'r cyntaf yr un mor berthnasol i'r olaf.
- Newidiwyd "Disgrifiwyd gwasanaethau gofal yn werthfawr" yn "Y staff yn rhoi gwerth mawr ar y gwasanaeth" er cywirdeb ac er mwyn adlewyrchu'n well y cod tebyg arall, sef "Y defnyddwyr yn rhoi gwerth mawr ar y gwasanaeth".
- Newidiwyd "Gwasanaethau yn cynnig rhyddhad" yn "Gwasanaethau yn cynnig manteision personol i ddefnyddwyr" oherwydd gorgyffyrddiad semantig.
- Newidiwyd "Defnyddwyr yn anfodlon defnyddio gwasanaethau" yn "Defnyddwyr gwasanaethau yn amharod i ddefnyddio gwasanaethau" er hyblygrwydd a chymhwysedd.
- "Ymyriadau'n cael effeithiau personol cadarnhaol" wedi'i gyfuno'n "Gwasanaethau yn cynnig manteision personol" er cysondeb ac oherwydd gorgyffyrddiad semantig.
- "Gwasanaethau yn gofyn am adborth" wedi'i gyfuno'n "Gwasanaethau wrthi'n gofyn am adborth" oherwydd dyblygu.
- "Gwasanaethau gwahanol yn gweithio gyda'i gilydd yn ychwanegu gwerth" wedi'i gyfuno'n "Cydgynhyrchu yn ychwanegu gallu" er cymhwysedd.
- "Y gwasanaeth yn cynnig manteision corfforol" wedi'i gyfuno'n "Y gwasanaeth yn cynnig manteision personol".
- "Y gwasanaeth yn cynnig darpariaeth o ansawdd uchel" wedi'i gyfuno'n "Darparu gwasanaethau o ansawdd uchel" oherwydd dyblygu.
- "Darparwyr gwasanaethau yn gwirfoddoli'u hamser" wedi'i gyfuno'n "Darparwyr gwasanaethau yn mynd y tu hwnt i'r gofynion" oherwydd gorgyffwrdd semantig.
- "Darpariaeth gyson yn cyfrannu at ganlyniadau da" wedi'i gyfuno'n "Darpariaeth gyson yn arwain at ganlyniadau da" oherwydd dyblygu.